

ECO'R WYDDFA

Rhif 123


MAWRTH 1987

Pris 20c

ANGEN GWEITHWYR

Ar dudalen 2 o'r 'Eco' y mis hwn fe sylwch fod rhestr swyddogion a gweithwyr y papur yn lleihau. Mae gwagle wedi bod gyferbyn â swyddi'r Trefnydd Plygu a Golygydd Eco'r Ifanc ers rhai misoedd bellach, a neb wedi cynnig ei hun i lenwi'r ddau fwch. Y mis hwn, mae gwagle ychwanegol, gan fod Jane Roberts yn darhod gyda'i swydd o baratoi Dyddiadur y Mis. Bu wrth y gwaith hwn yn ddiwyd ers dechrau'r papur a mawr yw ein dioch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i'r 'Eco' dros y blynnyddoedd. O fewn mis bydd Cyfarfod Blynnyddol yr 'Eco', ac y mae posibilrwydd y bydd eraill yn mynnu seibiant o'r gwaith. Pwy a ddaw i ysgwyddo'r baich? Dim ond y chwi, ddarlennwyr yr 'Eco' all gynnig cymorth. Mae eich hangen - a hynny ar frys.

TÂN AR Y SGWÂR



Y cwmwl o fŵg a tân — a fu unwaith yn gar

Pan ruthrodd un o ffotograffwyr yr 'Eco' allan i'r ffrynt un dydd Sadwrn yn ystod y mis, roedd drama gynhyrfus yn datblygu o flaen ei lygaid. O flaen Garej y Snowdon ar Sgwâr Llanrug roedd car ar dân! Cychwynnodd y tân o'r tu fewn i'r garej, a phan fethwyd â'i ddiffodd â'r offer atal tân yn y garej, gwithiwyd y car fflamlyd allan i'r lôn er mwyn arbed gweddill y garej. Pe bai'r car wedi ffrwydro o'r tu mewn i'r garej gallasai'r canlyniadau fod wedi bod yn echrydus — ar un ochr i'r adeilad mae cartrefi henoed Hafan Elan, a'r tu cefn mae garej bysiau Arfon. Llwyddodd y perchennog — Henry Jordan, a'i nai, Noel, i wthio'r car oddi ar libart y garej, ac yn glir o'r pwmpiau petrol i'r ffordd fawr. Roedd y car yn wenfflam erbyn i'r frigad dân gyrraedd. Canmolwyd dewrder y ddau ŵr gan swyddog o'r Gwasanaeth Tân.



Sgerbwdd myglyd. Mae perchennog Garej Snowdon — Henry Jordan — ar y dde, yn archwilio'r difrod.

PEDWARAWD LLANRUG PENCAMPWYR GOGLEDD CYMRU DAN 16 OED



Pedwarawd Llanrug oedd yn fuddugol ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mangor yn ystod y mis. Yr aelodau yw (chwith i'r dde) Kevin Tame — a ddaeth hefyd yn gyntaf ar yr unawd; Bryn Jones — a ddaeth yn 3ydd gyda Kevin ar y ddeuawd; Sian Jones — a ddaeth yn drydedd ar yr "Air Varie" a Susie Jacobs.

4 + 4 = 2 GWOBRAU CYNTAF I IEUENCTID Y BANDIAU PEDWARAWD DEINIOLEN PENCAMPWYR GOGLEDD CYMRU DAN 12 OED



Pedwarawd Deiniolen yn cael eu gwobrwyo gan y Cyngorydd Marshall, Maer Bangor ar ôl ennill y gystadleuaeth pedwarawd i rai dan 12 oed. Roedd Eilir Williams (ail o'r chwith) hefyd yn 5ed ar yr unawd i rai dan 12 oed (Mwy o luniau a hanes y gystadleuaeth ar dudalen 10 ac 11)

**PLYGU'R ECO
Rhifyn EBRILL
nos lau, Mawrth 26ain
am 6 o'r gloch yn
Ysgol Gynradd Llanrug**

ECO'R WYDDFA

RHIF 123
MAWRTH

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

**SWYDDOGION A GOHEBWYR
GOLYGYDD NEWYDDION
CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU:**
Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS:

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU:

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
MAWRTH 26ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MAWRTH 17eg
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CYRSIAU DYSGU CYMRAEG

Annwyl Syr,
**Re: Cwrs Cymraeg i Ddysgwyr
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg,
Gwersyll yr Urdd, Llangrannog,
Mawrth 20-22ain, 1987**

Arweinir y cwrs gan Mr Gwilym
Roberts, Caerdydd. Bydd yno
athrawon profiadol i gynnig gwersi
ffurfiol, a rhoddir pwyslais ar gym-
deithasu'n anffurfiol trwy gyfrwng y
Gymraeg. Bydd yr ochr gym-
deithasol yn cynnwys canu, dawnsio
gwerin, gwrando ar siaradwyr
gwadd, cwisiau, a.y.b. Byddwn
hefyd yn rhannu'r gwersyll gyda
Cymdeithas Alawon Gwerin
Cymru a fydd yn darparu adloniant
ar gyfer y dysgwyr ar y nos Sadwrn.

Y prisiau yw:
OEDOLION £22.00
DI-WAITH: £13.00
PLANT (8-16): £15.00
PLANT (dan 8): £-
OEDOLION (dydd yn unig): £6.00
(a bwyd).

Mae'r prisiau hyn yn cynnwys
llety, bwyd a hyffroddiant. Am fwy o
fanylion neu ffurflen gais, anfonwch
amlen stampiedig wedi ei chyfeirio i
Swyddfa'r Gymdeithas.

Yn gywir,
Emyr Davies a
Dyfrig Davies
Swyddfa Cymdeithas yr Iaith Gym-
raeg,
Penroc,
Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth,
Ffôn: (0970) 4501

Annwyl Syr,
Cynhelir cwrs unigryw ar gyfer
dysgwyr Cymraeg ar y penwythnos
27-29 o Fawrth, cwrs a drefnir gan Y
Gwarchodwyr Cefn Gwlad yng
Ngogledd Cymru.

Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i
ddysgwyr dderbyn gwersi yn yr iaith
tra'n defnyddio eu Cymraeg mewn
sefyllfaoedd cyffredin, yn ogystal ag
ymgyrdd 7a gwaith cadwraeth
ymarferol ar hyd arfordir Treftadaeth
Glannau Môn.

Dysgir yr elfen ieithyddol gan
diwtor o Goleg y Brifysgol ym
Mangor. Dylai'r bobl fydd yn
mynychu'r cwrs allu cynnal sgwrs yn
Gymraeg gan mai Cymraeg fydd yr
unig iaith a ddefnyddir yn ystod y
penwythnos.

Mi fydd y gwaith ymarferol yn
cynnwys tocio coed collddail sydd yn
tyfu ar dwyni tywod er mwyn
cynyddu eu gwerth cadwraeth i adar
a gloynnod byw. Hefyd ymgymeryd â
gwaith ar y twyni tywod eu hunain er
mwyn atal yr erydiad arnynt.

Mae'r penwythnos hwn yn gyfle i
ddefnyddio Cymraeg mewn
sefyllfaoedd cymdeithasol, gwaith
cadwraeth, sgysiaid hefo sleidiau a
theithiau cerdded er mwyn ehangu
hyder ac ehangu geirfa.

Archebwch eich lle ar y cwrs
newydd hwn.

Peidiwch ag oedi — mae'r llefydd
yn brin.

Am fwy o fanylion cysylltwch â
Eryl Roberts neu
Chris Nevin,
Gwarchodwyr Cefn Gwlad,
376-378 Stryd Fawr,
Bangor.

AWYRENWR O'R RHYFEL MAWR

Annwyl Olygydd,
Trwy ryw amryfusedd ni phostiais fy
atodiad i lythyr Mrs M E Jones yn
rhifyn Hydref yn cyfeirio at lythyr
oedd Robert Emrys Owen, Caerfoel
— yr awyrenwr dan sylw — wedi ei
anfon at R R Roberts, Fronheulog.
Rwyf yn cofio y ddau yn dda.

Roedd R R Roberts (Dic Robs) yn
frawd i Daniel Roberts (Dan Robs)
oedd yn bêl-droediwr amlwg yn
nhim Llanberis yn y dau ddegau.
Roedd hefyd yn aelod o
Diriogaethwyr Llanberis, o dan
arweiniad Dr Mills Roberts. Galwyd y
Tiriogaethwyr i fyny yn fuan ar ôl
dechrau y rhyfel a buont yn gwersylla
am gyfnod tros yr Aber yng
Nghaernarfon. Amgaeaf lun o Dr
Mills, a rhyw ddoctor o Ben-y-Groes
tu allan i'r gwersyll.

Bu Richard Roberts yn y fyddin
trwy gydol y rhyfel a chafodd rhyw
anffawd i'w benglin. Gwaethygodd
hwnnw a bu yn wael am rai
blynyddoedd cyn iddo fod yn angau
iddo. Aeth Robert Emrys i'r rhyfel fel
awyrenwr — roedd yn 'Lieutenant' yn
yr R A F — a chafodd ei ladd. Mae ei
enw ar y Rhestr Anrhydedd yn Ysgol
Brynrefail — ymhlith y dau ar hugain
o gyn-ddisgyblion a gollwyd yn y
rhyfel.

Mae Mrs M E Jones yn sôn am
Gwilym, brawd Robert Emrys, oedd
wedi dod ar ben rhestr y sir am
ysgoloriaeth i'r Ysgolion Sir, a bod
plant yr ysgol wedi cael diwrnod o
wyliau i ddathlu'r amgylchiad.
Cafodd Gwilym hefyd ysgoloriaeth o
Ysgol Brynrefail i'r Blue Coat School
ac mae gennyf gof da amdano yn dod
ar ei wyliau o'r ysgol honno mewn
côt las, laes a sanau melyn. Roedd
yna rhyw gysylltiad rhwng Ysgol
Brynrefail a'r Ysgol Gôt Las y pryd
hwnnw gan fod dau arall o'r ysgol
hefyd wedi ennill yr ysgoloriaethau
hyn. Aeth Gwilym wedyn ymlaen i
Brifysgol Caergrawnt lle y graddiodd.
Bu wedyn yn Gurad Sant Mair
Bangor, yn Ficer Eglwys Crist,
Llanelli, Ficer Eglwys Saesneg,
Aberystwyth, a Changhellor Eglwys
Gadeiriol Tŷ Ddewi.

Dywed M E Jones hefyd bod
Robert Emrys yn un o bedwar —
hithau yn un ohonynt — a gafodd
'watch' arian gan y Pwyllgor Addysg
am gadw'r ysgol yn ddi-fwlch am
bum mlynedd. Tybiaf mai fy chwaer
oedd y drydedd — gan fod y 'watch'
yma o hyd gyda medal a gafodd am
bresenoldeb llawn 1905-1908. Credaf
mai'r bedwaredd enillodd 'watch'
oedd Alis Roberts, Bedwargoed,
chwaer Hugh Roberts (Hugh
Brynlllys), Stryd y Ffynnon, Llanberis.
A chan ein bod yn sôn am un a
sythiodd yn y rhyfel hoffwn nodi bod
naw o'r ardal wedi eu colli yn y rhyfel
dychrynlyd hwnnw, ac mae gennyf
gof plentyn am gyfarfodydd coffa
iddynt yn y gwahanol addoldai. Yn
rhyfedd, collwyd tri o'r tri addoldy —
Willie Roberts, Beudy Mawr, Ellis
Williams (Esgeiriau) Fachwen, a
Herbert Salt, Y Foel o'r Eglwys; Ifan
Griffith, Y Foel, Abram Hughes, Y
Foel ac Arthur Thomas, Bwlch Gwynt
o Sardis; a Dafydd a Robert Davies,
Tan y Garret (Brodyr) ynghyd â
Robert Emrys o Ddinorwig.

Trist iawn oedd gofid Y Foel. Tri o'r
tri tŷ agosaf i'w gilydd, a bu ond y dim
iddi fod yn bedwar gan i Griffith
Lloyd, Tŷ Capel Sardis, y tŷ agosaf
wedyn, gael ei glwyfo yn drwm.

H Thomas
Llanor

PEN-BLWYDD Y GYMDEITHAS LLYFRAU CYMRAEG

Annwyl Olygydd,
Mae Cymdeithas Llyfrau Cymraeg
Sir Gaernarfon yn 30 oed eleni a thros
y blynyddoedd bu'n hyrwyddo
cyhoeddi a gwerthu llyfrau Cymraeg
mewn llawer dull a modd.

Bu aelodau'r Gymdeithas yn talu
£2.10 y flwyddyn ac yn cael gwerth £2
o stampiau llyfrau Cymraeg a thri
chopi y flwyddyn o "Llais Llyfrau" yn
goforiog o wybodaeth am lyfrau
Cymraeg.

Penderfynwyd codi'r tâl o hyn
ymlaen i £5 y flwyddyn a rhoi i bob
aelod werth £4.50 o stampiau (i'w
cyfnwio yn unrhyw siop lyfrau
Cymraeg) yn ogystal â thri copi y
flwyddyn o "Llais Llyfrau".

Er ein bod yn dal i gadw'r hen enw
mae'r aelodaeth yn agored ymhell tu
hwnt i ffiniau'r hen sir. Os hoffech
ymuno a wnewch chi anfon sic am
£5 yn daledig i "Cymdeithas Llyfrau
Cymraeg Sir Gaernarfon" ataf neu
anfon am ffurflen i gyfrannu drwy'r
banc (sy'n ddull hwylus iawn o dalu'r
tâl aelodaeth yn rheolaidd).

Dyma ffordd ymarferol hollol o
ddathlu Gŵyl Ddewi.

Yn gywir,
Dafydd Orwig
(Ysgrifennydd)
'Cilcapan',
Braichmelyn,
Bethesda.
Bangor.

DYDDIADUR DESG

Annwyl Olygydd,
Eleni am y tro cyntaf rydym wedi
cyhoeddi **DYDDIADUR DESG** i
gadw cwmni i'r Dyddiadur Pced
sydd wedi ymddangos ers rhai
blynyddoedd. Yn dilyn y rymateb
brŵd iddynt, bwriadwn
gyhoeddi rhifynnau 1988 erbyn
yr Eisteddfod Genedlaethol.

Er mwyn i'r ddau Ddyddiadur
fod mor gywir ag sy'n bosibl
erfyniwn am eich cymorth yn
Fudiadau, Cymdeithasau,
Papurau Bro ac yn y blaen.
Gwnewch yn siŵr fod eich
sefydliad chi yn cael ei gynnwys
drwy anfon y manylion
perthnasol at y cyfeiriad isod
erbyn Dydd Gŵyl Dewi.

Byddem hefyd yn
gwerthfawrogi beirniadaeth
adeiladol ac unrhyw sylwadau a
fyddai'n gwneud y ddau
Ddyddiadur yn fwy defnyddiol

Diolch ymlaen llaw i chi am ein
helpu i ddarparu Dyddiaduron
safonol a defnyddiol yn yr iaith
Gymraeg.

Megan Mai
Y Lolfa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

OPERA I'R GOGLEDD

Annwyl Syr,

Yn dilyn cau theatr yr Astra, Llandudno nid oes mwyach unrhyw le addas i gynnal perfformiadau Opera yng Ngogledd Cymru. Bu dadlau brŵd yng Nghlwyd rhwng cefnogwyr Yr Wyddgrug neu Wrecsam ond nid yw'r naill le na'r llall yn gyfleus ar gyfer Gogledd Cymru gyfan. Hefyd nid oes cynlluniau wedi eu paratoi ac mae sŵn y byddai'r gost gymaint a 10 miliwn neu fwy.

Am y rhesymau a ganlyn 'does dim rheswm dros edrych ymhellach na Llandudno.

1. Mae Cyngor Bwrdeisdref Aberconwy yn awr yn barod, mewn cydweithrediad â datblygwr preifat, i fwrw ymlaen â theatr newydd yn lle'r Arcadia ac mae'r arian ar gael ar gyfer y gwaith.

2. Fe gostiai lai na £2 filiwn i addasu'r cynllun hwnnw fel bod 1,500 sedd yn y theatr newydd a chyfleusterau llwyfan addas ar gyfer cynhyrchion mwyaf uchelgeisiol y Cwmni Opera. Mae hwn yn fuddosddiad rhesymol iawn o gymharu â chost theatr newydd sbon.

3. Mae cynlluniau manwl ar gyfer y datblygiad, a baratowyd mewn ymghynghoriad â'r Cwmni Opera, ar fin cael eu cwblhau.

4. Mae Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru wedi dweud ar goedd mai Llandudno yw eu dewis hwy gan na chafwyd unrhyw drafferth i lenwi'r Astra yn y gorffennol.

5. Yn wyneb pwysigrwydd Opera i

dwristiaeth ym mhrif gyrchfan gwyliau Cymru, mae'n rhesymol disgwyl i Fwrdd Croeso Cymru, y Swyddfa Gymreig a Chymuned Ewrop gyfrannu at addasu'r Arcadia newydd a chefnogi tymor opera haf a gaeaf yn Llandudno.

Mae Cyngor Bwrdeisdref Aberconwy a Chyngor Sir Gwynedd eisoes yn gweithio'n galed i'r perwyl hwn. Dibynna'r cyfan yn awr ar i'r Swyddfa Gymreig gydnabod yr hyn sy'n amlwg, a chaniatau parhad traddodiad opera a ffynnodd yn Llandudno ers degau o flynyddoedd.

Yn gywir

Cyng. Canon Robert Williams
CADEIRYDD CYNGOR SIR
GWYNEDD

NODDWYR YSGOL BRYNREFAIL

Annwyl Syr,

Fel cyn ddisgybl o Ysgol Brynrefail, yma yn awr yn gwneud y gyfraith, derbyniais yn ddiweddar, drwy benderfyniad y llywodraethwyr, swm o arian yn deilliaw o gronfa David ac Anne Jones.

Mae fy chwiilfyddedd yn gryf i ddarganfod pwy oedd y ddau haelionus hyn. Oes rhywun a wŷr?

Yn ffyddlon,

Sion Rees Williams,
Room 16,
3rd Floor,
St. Peter's Building,
HUDDERSFIELD,
W. Yorks.

CYNGOR CLWYD A GWYNEDD AR ALCOHOLIAETH

Annwyl Olygydd,

Mae gwasanaeth newydd yn cychwyn ym Mangor sy'n ymdrin â phroblemau sy'n codi o gamdrin alcohol. Mae'n rhan o waith cymunedau lleol, ac yn rhan o waith y Cyngor uchod. Rydym yn cynnig gwasanaeth cynghori i bobl sydd â phroblem. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig gan bobl hyfforddedig, ac yn gwbl gyfrinachol. Yn ogystal â hyn mae gwasanaeth addysgiadol ar gael — gallwn drefnu i ymweld ag ysgolion, diwydiant, clybiau — neu

unrhyw le arall lle bo'r galw. Byddwn yn cynnig gwybodaeth arbenigol am effeithiau camdrin alcohol, sut i geisio rheoli yfed, a pha faint yw'r lefel rhesymol i yfed.

Mae'r gwasanaeth ar fin cael ei lansio, ac os oes unrhyw un â diddordeb ynddo, gwahodwn chi i gysylltu â ni yn y cyfeiriad isod.

Yn gywir

Sion Thomas
Swyddog Gwybodaeth
Cyngor Clwyd a Gwynedd
ar Alcoholiaeth
Bangor.

APÊL Y GALON

Dymuna Pwyllgor Cangen Caernarfon a'r Cylch Apêl Cymraeg Ymchwil y Galon, ddiolch am y gefnogaeth a gafwyd gyda gwerthiant Cardiau Nadolig, pryd y gwnaed elw sylweddol. Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Apêl y Galon yn yr Institiwt, Caernarfon, nos Fawrth, 10fed o Fawrth am 7.30 o'r gloch.

DRAENOG

Glywsoch chi am yr athrawesau rheini o'r fro sydd â'r cyfrifoldeb o ddysgu'r amser i'n plantos bach niô Mae nhw'n gwneud gwaith da iawn am wn i — ond biti eu bod yn cymysgu dyddiau'r wythnos. Clywed eu hanes yn mynychu cwrs addysg yn ddiweddar — a hwnnw wedi ei gynnal ddiwrnod ynghynt!

ANRHEGU CARTREF "FRONDEG"



MERCHED Y WAWR YN HELPU'R ANABL

Blwyddyn yr Anabl oedd 1982 fel y cofiwch. Dyma pryd y ffurfiwyd Pwyllgor Anabl Merched y Wawr. Gwnaed adduned i gasglu £1,000 bob blwyddyn, ac mae'r swm yma wedi ei wireddu yn flynyddol, gyda chyfran yn weddill. Cynhelir y pwyllgorau achlysurol hyn yng Nghaernarfon. Ar ddechrau pob blwyddyn gwahoddir rhywun sydd yn gysylltiedig â'r Anabl mewn gwahanol ffyrdd i drafod eu gwaith. Yna penderfynwn pa achos y medrwn ei gefnogi am y flwyddyn honno.

Y flwyddyn gyntaf, Cartrefi'r Henoed a gafodd gyfraniad ariannol.

Yr ail flwyddyn, cyflwynwyd peiriant i chwyddo print i'r plant rhannol ddall mewn ysgolion.

Y drydedd flwyddyn, tro y plant byddar oedd cael offer i'w helpu.

Y bedwaredd flwyddyn, rhoddwyd arian i bwrcasu grisiau symudol i Uned Arbennig Plant Ysgol Maesincla. Mae rhai o'r plant nad ydynt yn gallu dringo grisiau, ac mae'r grisiau arbennig hyn yn eu galluogi i gyd-fwyta â'r gweddill.

Ym 1986 cawsom y fraint o anrhegu Cartref Frondeg gydag 'Uned Miwsig' a beic cryf tair olwyn, hefyd ar ei ffordd mae beic tebyg ar gyfer y plant.

Nos Wener, Chwefror 6ed eleni, aeth Pwyllgor Anabl Merched y Wawr i Frondeg i drosgwyddo'r rhoddion. 'Roedd y croeso a gawsom gan Mrs Mair Williams a'r trigolion yn ddigon o ddiolch i ni am ein llafur.

Fe addunedwyd gan bob cangen i anfon cardiau Nadolig a phen-blwydd i Frondeg. Diolch i'r Canghennau i gyd ym Mro Eco'r Wyddfa am eu cyfraniadau a'u help parod bob amser.

MA'IFAN'MA - YN ÔL

Bydd cyfres newydd IFAN GRUFFYDD y digrifwr o Dregaron yn dechrau ar S4C ar Fawrth y 6ed. Bydd Tomi yn dal i ddrysu'i fam, Wil yn pwyso ar ei wal, Dai yn rhoi ei droed ynddi, Harri a Ianto yn osgoi gwaith. Bydd ambell i gymeriad newydd yn cyrraedd hefyd, yn eu plith, Idwal, fel mae Ifan yn dweud 'Mae 'na Idwal ym mhob ardal!'

Fe fydd tîm arferol gydag Ifan bob wythnos — Gillian Elisa Thomas, John Pierce Jones, Gwyn Elfyn, Gwyneth Hopkins a John Glyn Owen a bydd gwestai arbennig yn galw heibio bob wythnos. Yn y rhaglen gyntaf bydd Ifan yn canu deuawd gyda Dafydd Iwan! Mewn rhaglenni eraill yn y gyfres gwelir



Orig Williams, Hywel Gwynfryn, Elinor Jones, Elen Roger Jones, a'r ddau Aelod Seneddol, Dafydd Elis Thomas a Geraint Howells.

Cynhyrchir y gyfres gan Deledu'r Tir Glas, Caernarfon, ac fe'i recordiwyd o flaen cynulleidfya yn Theatr y Werin, Aberystwyth.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.



Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772

TRIN GWALLT I BAWB
O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

GWELLHAD BUAN: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Gwynfor Humphreys, Rhos Lan, Stad Minffordd.

Hefyd i Mrs Ellen Williams, Tremallt, Hafan Elan sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

PROFEDIGAETHAU: Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Mr Emyr Jones, 17 Hafan Elan, yng Nghapel Tan y Coed, dydd Sadwrn, Ionawr 20fed. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch John Morris a chynorthwywyd gan y Parchn W R Williams, Erfyl Blainey a W O Roberts. Rhoddwyd y deyrnged gan y Parch John Morris.

Brynhawn Sadwrn, Ionawr 20fed, bu gwasanaeth angladdol Mrs Martha Ellen Williams, Delfryn, 12 Rhos Rug, yng Nghapel Mawr. Gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch John Morris a'r Parch Ifan Williams, Blaenau Ffestiniog, perthynas.

Brynhawn Gwener, Chwefror 6ed, cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Mrs Jane Williams, Minallt, Hafan Elan. Roedd Mrs Williams yn 102. Cafwyd gwasanaeth preifat yn y tŷ a gwasanaeth cyhoeddus ym mynwent Deiniolen.

Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch John Morris, y Parchn Stanley Williams, W O Roberts a Trefor Lewis. Rhoddwyd teyrnged gan y Parch Stanley Williams.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'r teuluoedd uchod yn eu profedigaethau.

GWELLHAD: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs H W Morris, 15 Rhos Rug; Mrs Alf Pritchard, Pen y Sarn a Mrs Roberts, Stad Nant y Glyn, a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Ionawr 10fed, yn Swyddfa'r Cofrestrydd, Caernarfon, priodwyd John Henry Evans, mab Mr Llewelyn Evans a'r ddiweddar Mrs Carolyn Evans, Parcy Rhos, Lon Groes â Miss Gwawr Davies, merch Mrs C A Davies a'r diweddar Mr Arfon Davies, 21 Bro Rhyddallt. Dymuniadau gorau iddynt ar achlysur eu priodas.

DIOLCH: Dymuna Alwyn ac Alwena ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Sarah Roberts, 15 Hafan Elan. Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd at Uned Gofal y Galon, Ysbyty Gwynedd. Bydd y swm o £320 yn cael ei anfon i'r Uned.

DIOLCH: Dymuna Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan ddiolch i'w ffrindiau a'r teulu am y cardiau a'r anrhegion, ac i bawb a ddaeth i'w gweld tra yn yr ysbyty. Diolch hefyd yn arbennig i'r cymdogion a fu mor gymwynasgar a charedig i'w mam a'r teulu tra bu oddi cartref.

DIOLCH: Dymuna Mrs E L Jones, Lyndalw, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'r teulu, cymdogion a'i holl ffrindiau am eu caredigrwydd tuag at Len dros dymor y Nadolig. Dilch yn fawr.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Chwefror 10fed yn Ysgol Gynradd Llanrug, cyfarfu Merched y Wawr, Llanrug o dan lywyddiaeth Mrs Menna Williams, llywydd y gangen.

Wedi croesawu'r aelodau dywedodd y llywydd ein bod yn anfon ein cyfarchion a'n dymuniadau da i'r aelodau oedd yn absennol oherwydd profedigaeth neu waeledd.

Gwahoddwyd Mrs Lola Butler a Mrs Jane C Williams i roi inni eu hatgofion am fro eu mebyd. Mrs Butler yn enedigol o Moch, Cwm-y-Glo oedd y siaradwr cyntaf.

Soniodd Mrs Butler am y bywyd hapus naturiol dreuliodd yn nhawelwch ei chartref uwchben y pentref, er yn unig blentyn - byth yn unig - ei chyfoedion y defaid a'r ŵyn, y fuchw a'r llo a'r ieir.

Mynd i'r ysgol i Gwm-y-Glo yn dair oed, a'i modryb yn brif athrawes yno. Er mai cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf ydoedd - digon i'w diddori yma eto, cyngherddau a gweithgareddau eraill cysylltiol â'r ysgol yn cael eu cynnal yn yr hwyr.

Profiad arswydus i blentyn ysgol oedd deffro un bore, wedi noson o adloniant difyr yn yr ysgol a gweld ei hysgol yn wenfflam. Ar ôl y digwyddiad trist yma, cafwyd ysgol newydd a chynhaliwyd cyngherddau yn Ffestri'r Capel MC. Y gweinidog, Y Parch W G Williams a'i briod yn cyfrannu'n helaeth o'u doniau i ddiwyllio'r plant. Mrs Williams hefyd yn gweithio fel Nyrs Plwyf yn y cylch.

Brodor o Lanfrothen yw Mrs Williams, yr ail wraig wadd, hithau wedi ei geni mewn ardal dawel brydferth, yn cael ei hamgylchynu a 'harddwch i'w ryfeddu' fel y dywedodd Bernard Shaw unwaith.

Bugeilio defaid oedd y prif waith unwaith, ond wedyn agorwyd pedair chwarel yn y cylch. Yn sgil hyn daeth diwylliant newydd a bywyd llawnach - rhai o ardaloedd eraill yn dod i fyw a gweithio i'r ardal.

Ymysg cymeriadau lliwgar yr ardal, yn feirdd, cerddorion, pregethwyr a chenhades, enwyd loan Brothen â'i awen farddonol, a'r cymeriad lliwgar unigryw Bob Owen Croesor a aned ym mhentref

Llanfrothen.

Yr oedd diwylliant cerddorol cryf yn Llanfrothen - côr yn yr ardal bob amser - a'r gweithgareddau i gyd yn undebol.

Diolchwyd i'r ddwy wraig wadd am noson ddifyr ddiddorol gan Mrs Enid Whiteside Thomas. Cafwyd paned o de wedi ei baratoi gan Mrs Davies, Mrs Jones, Mrs Brierley, Mrs Thomas a Mrs Roberts a diolchwyd iddynt gan Mrs Olwen Hughes.

PLAID CYMRU

Cangen Llanrug a'r Cylch: Croesawyd aelodau'r gangen i noson gymdeithasol yng nghwmni aelodau cangen Waunfawr ym mis Chwefror.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn nhŷ bwyta Llety, Caeathro. Cadeirydd y cyfarfod oedd John Huws, y Waunfawr. Diolchodd Phyllis Ellis i aelodau Waunfawr am eu croeso, i Gill Brown am wneud y trefniadau ac i Elfed Roberts, y trefnydd am ymuno â ni.

Rhoddodd Mrs Mary Vaughan Jones sgwrs hynod o ddifyr i ni am ei thaith i Batagonia. Dangosodd hefyd luniau hyfryd o'r wlad a rhoi cyfle i ni glywed rhai o'r bobol a'r plant yn sgwrsio mewn Cymraeg rhugl.

Ar nos Fercher, Mawrth 11, byddwn yn cael Cwis Gwahanol yn cael ei drefnu gan Dafydd Whiteside Thomas a Gwyndaf Jones. Gobeithiwn groesawu aelodau o ganghennau Plaid Cymru ym mro Eco'r Wyddfa i'r cyfarfod yma.

Beth yw CWIS GWAHANOL? Wel, bydd yn rhaid i chi ddod yno.

Dyma enwau enillwyr y Clwb Cant.

Rhagfyr:

1. James Jones, Dwyros; 2. Berwyn P Jones, 59 Glanffynnon.

Ionawr:

1. Dr Eirwen Gwynn; 2. Leslie Larsen.

Chwefror:

1. Arwyn Roberts, Hafle; 2. Gwyndaf Hughes, Glasgoed.

LLONGYFARCHIADAU i Michelle a Siôn Rowland Hughes ar enedigaeth eu merch fach a wyres fach eto i Dr a Mrs Dan R Hughes, Pant Afon.

CYDYMDEIMLIR â Mrs Katie Griffith, Fron Hyfryd, ym marwolaeth ei chwaer yng Nghaeathro.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, y 17eg bu'r Parch H J Hughes, Porthaethwy, yn son am ei fenter yn magu Gloynnod Byw, ac sydd ar hyn o bryd wedi agor Fferm o'r enw Pili Palas ar Ynys Môn. Mae miloedd o bobl yn ymweld â'r lle yn ystod yr haf, ac mae adran addysgiadol ar gyfer plant i dreulio diwrnod yno. Hefyd mae yno nifer o anifeiliaid anwes a fyddai o ddiddordeb i'r plant. Dangoswyd lluniau o'r gwahanol loynnod gan lan, oedd yn cynorthwyo Mr Hughes. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs M Lloyd Williams, a thalwyd diolch i'r siaradwr gan y Parch W O Roberts.

Fe gynhelir cyfarfod olaf y tymor yn

Mhlas Tan Dinas i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y 3ydd o Fawrth, gyda'r Parch John Morris yn llywyddu.

CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL MAWR: Oherwydd y tywydd gohiriwyd cyfarfod o'r Gymdeithas oedd i'w gynnal ar y 15 o Ionawr. Ycyfarfod cyntaf i'w gynnal eleni oedd ar yr 20fed o Ionawr. Llywydd y noson oedd Mr Gwilym Rees Parry, a'r gŵr gwadd oedd Mr Aled Taylor, Waunfawr, a thrwy gyfrwng sleidiau aeth a ni o amgylch yr Wyddfa, a gwelsom rhywfaint o waith Tim Achub Mynyddda Llanberis. Diolchwyd i Mr Taylor gan Mrs Lovatt, Brwynog. Paratowyd paned gan Mrs Eileen Williams, Afon Rhos, Mrs J Maxwell, Noddfa a Mrs N Williams, Haulfan. Diolchwyd am y baned gan Mrs B Hughes, 1 Gorffwysfa.

Chwefror 12 croesawyd Mr Gwyn Davies, Waunfawr, a chafwyd sgwrs ganddo am ei waith fel twrna. Llywydd y noson oedd Mrs I Butler, Haddef, diolchwyd i Mr Davies gan Mrs Ellis Owen, Bryn Maen. Paratowyd paned gan Mrs J M Jones, Ger y Ffynnon, Mrs B Hughes, 1 Gorffwysfa, a Mrs M Williams, Gwledfa, a diolchwyd iddynt gan Mrs J Roberts, Gwyndy. Cynhelir cinio dathlu Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r 'Royal Goat' Beddgelert, nos Wener, 27 Chwefror.



LUNED JONES, Pant Mwyn, Llanrug a ddaeth yn gyntaf mewn ras nofio'r cefn dan 10 oed yng Ngala Nofio'r Urdd. Bydd Luned yn awr yn cynrychioli Sir Eryri ym Merthyr.

CROESO ADREF i Mrs Beti Evans, 9 Afon Rhos sydd wedi dychwelyd o Ysbyty Caerdydd ac ôl derbyn triniaeth ar y galon. Mae'n dymuno diolch i berthnasau a ffrindiau am flodau, cardiau a charedigrwydd. Diolch hefyd i Alice Eileen Williams, Gwyneth, chwaer Megan o Lanberis a Mair Evans. Y mae'r tair o'r ardal yma yn wreiddiol ond maent bellach yn byw yng Nghaerdydd. Dymunwn adferiad buan iawn i Mrs Evans.

Merched ...
Dynion ...
Plant ...

I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon 5366

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Mae mwy o ddewis nag erioed gan
JOHN A ROBERTA GRIFFITH

Y STORFA
SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Gwlân Sirdar, Patrymau, Gweill Aero Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m. Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a 9.30 - 12.30 fore Sul Archebwch dros y ffôn - fe'i danfonwn at eich drws

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

AELODAU'R URDD GYDAG EDWARD MORUS JONES



ADRAN BENTREF YR URDD: Bawn Sadwrn, Ionawr 31ain bu tri aelod o'r adran yn cymryd rhan yng Nghystadleuthau Nofio yr Urdd ym Mangor. Llongyfarchiadau i'r tri am wneud mor dda yn enwedig Caitlin Wroe a ddaeth yn gyntaf o dan 12 oed.

Ionawr 27ain, mwynhaodd y plant awr o ganu gydag Edward Morris Jones. Diolch i Edward am ddod yr holl ffordd o Landegfan atom.

Chwefror 3ydd dosbarthwyd tocynnau aelodaeth y plant iddynt ac eglurwyd testunau cartref Eisteddfod yr Urdd.

Chwefror 10, daeth Selwyn Griffith i ddangos sleidiau o'r gwahanol wledydd y bu ynddynt a diolchwn

iddo am noson bleserus a chofiadwy. "Byd Natur" gyda Duncan Brown fydd yr arlwy ar Chwefror 24ain. Sleidiau gan Leslie Larsen ar Mawrth 3ydd.

Cawn weld "Fideo'r Urdd" ar Mawrth 11, ac estynnwn groeso i Adran Penllyn atom Mawrth 17. Chwilen, Mawrth 25, Nos Fercher, awr yn y Ganolfan Hamdden.

Pob dymuniad da i bob aelod o'r Adran sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod dan 15 yn Ysgol Syr Huw Owen, a'r Eisteddfod dan 12 oed yn Ysgol Brynrefail. Diolchir yn ddiffuant iawn i bawb fu'n brysur yn hyfforddi'r plant, ar ôl oriau ysgol ac yn eu cartrefi gyda'r nos.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad llwyr af â'r canlynol yn eu profedigaeth:

Mrs Katie Jones, 9 Bryntirion wedi colli'i brawd mewn damwain

Mrs Owen, Minffordd, hithau wedi colli'i brawd yn ddiweddar:

Delyth Williams wedi colli ewythr:

Mrs Nix wedi colli nai o Frynrefail.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, Ionawr 31ain, bu farw Miss Vera Naylor, 25 Bryntirion, yn 67 mlwydd oed. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll.

FFARWELIO: Wedi cyfnod hapus ym

Mryn Eglwys, y mae Elwyn a Ceri Hughes wedi symud i fyw i Lanrug, pob dymuniad da ichi Elwyn a Ceri yn eich cartref newydd.

Wrth ffarwelio, fe groesawn Deiniol a Heulwen Evans ac Urien Deiniol i'n plith. Rydym yn gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn y pentref ac y byddwch yn ymuno â ni yn y gwahanol weithgareddau.

YSGOL TAN Y COED: Rydym yn falch o glywed fod Daniel a Tristan yn gwella wedi triniaeth yn yr Ysbyty - brysiwch yn ôl i'r ysgol hogia!

ENILLWYR CYSTADLAETHAU NOSON SANTES DWYNWEN



CLWB CANT: Nos Lun, Ionawr 26ain, am 6.30pm yn Neuadd yr Eglwys cafwyd noson ddifur i gofio Santes Dwynwen - Santes y Cariadon. Bu plant yr ysgol i gyd yn brysur yn gwneud llun, a llunio cerdyn. Cafwyd arddangosfa ddiddorol iawn o'r gweithgareddau, a chafodd Amranwen Lynch, y beirniad, gryn drafferth i feirniadu gan fod y safon yn uchel iawn. Cafwyd nifer dda o deisennau hefyd - i gyd wedi'u haddurno yn hynod o gelfydd. Diolch i Amranwen am feirniadu mor deg ac i chwithau blant am gystadlu a

gwneud noson Santes Dwynwen yn noson lwyddiannus iawn. Enillwyd y raffl - sef bocs o siocled - gan Deon Dafydd.

Enillwyr Clwb Cant oedd 1. Mrs Fisher; 2. Mr Ifan Hughes; 3. Mrs Annette Webb.

Nos Iau, Chwefror 26ain cawn noson yng nghwmni Arwel Jones, gyda "Siôn a Siân" a nifer o eitemau gan aelodau'r Urdd yn Neuadd yr Eglwys am 6.00pm.

GWELLHAD: Rydym yn falch o glywed fod Marion, Cae Corniog a Mrs Pritchard, Llys y Gwynt yn well

wedi triniaeth yn yr ysbyty, a deallwn fod Mrs Evans, Bod Idris wedi cael dod adref. I bawb sy'n sâl yn y pentref, brysiwch wella i gyd.

EISTEDDFOD BENTREF: Bydd "Sêl Fawrth" yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Mawrth 5ed am 6.30 o'r gloch. Bydd stondinau teisennau, teganau,

llyfrau ac Elifant Gwyn a Thombola. Dowch yn llu er budd cyllid yr Eisteddfod, sydd bellach wedi hen ennill ei thir.

APÊL Y SGANIWR: Y mae'r nod wedi ei chyrraedd a hynny o fewn naw mis cwta - dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd at y swm o £1,300.

MAWRTH Y CYNTAF

Weli-di-nhw

Yn eu trowsusau streips a'u dici-bo-teis,
A'r cadwyni aur sy'n angori heb oriawr Taid
Yn siglo ar gyfandir eu boliau?

Weli-di-nhw

Yn hawlio esgus o Fawrth yn cyntaf
I arlwyio bord gerbron blonegog wŷr,
Wali-di'r rhialtwch
Uwch bwrdd-y-llo-pasgedig-wledd?

Cenhinen y dydd yn edwino

Yn nhwll botwm cot-gynffon-fain,
Cwrw yn canu clodydd
A gwin yn meddwi y gân.

Edrych,

Dacw Mrs Heiffeneted-Jones
Yn ymestyn yn fronnau i gyd
O'i ffrog-coban.

Sip o'r sherri, -

Peswch i grafu'r llwnc;

Ust, - Sh, -

Clywch llediaith pwysig-lais yn llwncdestynu, -

"Hir ois i'r iêth

a Cemri fac am bith" -

Y gryduras dlawd,

'Roedd hi'n byw yn Stiniog flwyddyn yn ôl.

Selwyn Griffith

(allan o C'nafron a Cherddi Eraill)

HUDOLIAETH Y DWYRAIN PELL gan ddwy o Lanrug!



Linda Morris, Clydfan, Llanrug yw'r ferch ddieithr hon! Mae'n dilyn cwrs trin gwallt yng Ngholeg Technegol Llandrillo, ac ar ei hail flwyddyn.

Yn ystod y mis diwethaf cynhaliwyd cystadleuaeth "Fantasy Hairstyle" i holl fyfyrwyr Trin Gwallt y Coleg. Wendy Jones, Gwydryn, Llanrug oedd yn gyfrifol am yr 'hudoliaeth' - a gymerodd dros ddwy awr i'w baratoi - ond roedd yn werth yr ymderch, oherwydd syniad a dawn Wendy am drin gwallt a ddaeth â'r wobwr gyntaf iddi. Mae Wendy hithau ar ei hail flwyddyn yn y Coleg. Dymunwn bob llwyddiant i'r ddwy yn y dyfodol.

CYNGERDD BLYNYDDOL "Lleisiau'r Gweunydd"

Arweinydd Einir Wyn Owen
gyda Dafydd Iwan
a Thriawd Menlli

Yn Neuadd Bentref Rhiwlas
Nos Fercher, Ebrill 8fed am
7.30pm Arweinydd y
noson Arwel Jones

Elw'r Noson a'r Raffl at Ymchwil
yr Arennau

Tocynnau ar gael gan aelodau'r
Côr ac Eiriona Williams - Ffôn:
870644

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Chwefror 2il o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y Llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misl a chroesawodd y wraig wadd sef Mrs Jean Maellen. Cawsom noson ddifyr iawn gyda Miss Maellen yn dangos sleidiau o'i gwyliau yn yr Aifft. Diolchwyd iddi gan y llywydd a Mrs J Eirlys Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Dilys Williams a Mrs Betty Williams. Enillwyd y raffl gan Miss Nancy Roberts.

Cydymdeimlwyd â Mrs Beti Wyn Davies ar golli ei chwaer a dymunwyd gwellhad buan i Mrs Marian Wyn Williams, Mrs Glenys Williams a Mrs Marian Williams sydd wedi bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth. Etholwyd Mrs J Eirlys Williams i gynrychioli'r gangen yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn Llundain ym mis Mehefin. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 2il, pryd y cynhelir Noson Lawen.

DIOLCH: Dymuna Mary Jones, 4 Y Bwthyn, ddiolch o galon i'r teulu oll, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd mawr a'u cymwynasgarwch yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, hefyd am y llu cardiau a dderbyniodd ar ddydd ei phen-blwydd yn 82 oed.

DIOLCH: Dymuna Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Sarah. Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd at Uned Gofal y Galon, Ysbyty Gwynedd. Bydd swm o £320 yn cael ei anfon i'r Uned.

NEWYDDION Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Chwefror: 1. £20 i Mrs M Williams, 6 Rhes Deiniol; 2. £15 i Mr Bryn Jones, 9 Stryd Caradog; 3. £10 i Mrs L Roberts, 8 Hafod Oleu.

Y GANOLFAN: Os am ddefnyddio'r Neuadd neu'r Caban yn y Ganolfan o hyn ymlaen, cysylltwch â **Mrs Valmai Williams, 2 Rhes Vaenol, Deiniolen.**

TIM DARTIAU MERCHED Y BULL DEINIOLLEN: Dymuna'r Cymdeithasau canlynol ddiolch o galon am y rhoddion hael a dderbyniwyd gan y Tim Dartiau Merched.

Dyma fel y dosbarthwyd yr arian: Clwb Codi Pwysau: £80.00; Clwb Bowlio: £60.00; Parti Nadolig Hen bobl y Bull £56.00; Parti Nadolig Te Bach: £20.00; Carnifal Deiniolen: £20.00; St John's Deiniolen: £20.00; Ysgol Feithrin: £20.00; Clwb

leuenctid: £20.00; Guides: £20.00; Brownies: £20.00; Clwb Pêl-droed leuenctid: £20.00; Clwb Snwcer: £20.00; Clwb Tim Darts Dynion y Bull: £20.00; Eisteddfod Gwaun Gynfi: £20.00; Seindorf Arian Deiniolen: £20.00.

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

DIOLCH: Dymuna Tristan Jones, 11 Hafod Oleu, ddiolch i'w ffrindiau a'i berthnasau am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd pan yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr i bawb.

SGANIWR: Dymuna Pwyllgor Apêl Sganiwr Deiniolen ddiolch am y gefnogaeth a gafwyd pan gynhaliwyd Noson Gwin a Chaws yn y Bull Inn, nos lau, y 5ed o Chwefror. Gwnaed elw o £69.00

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD UNDEBOL: Nos lau, 5ed o Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn o Gymdeithas Chwiorydd yr Ofalaeth, yn Ffestri Disgwylfa. Balch oeddem o weld cynifer o chwiorydd y tair Eglwys wedi dod at eu gilydd, hefyd chwiorydd Libanus.

Croesawyd pawb yn ôl ar ôl gwyliau'r Nadolig, a dymunir Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Anfonir cofion cynnes iawn tuag at bawb sy'n wael eu hiechyd, gan ddymuno adferiad iechyd buan iddynt.

Treuliwyd yr ail ran o'r cyfarfod o dan ofal y Gweinidog, pryd y dangoswyd i ni sleidiau o daith Mr Trefor Lewis yn Israel y llynedd.

Rhoddwyd y te am y mis hwn gan Mrs Miriam Lewis.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar nos lau, y 5ed o Fawrth.

CLWB BOWLIO: Dymuna'r Clwb ddiolch i'r merched sydd yn aelodau o Dîm Dartiau 'Y Tarw' am eu rhodd haelionus tuag at bryn Carped Bowlionewydd i'r pentref.

Dewch yn llu i'n cefnogi yn y gemau terfynol am Bencampwriaeth Pentref Deiniolen, i'w cynnal yn Neuadd y Ganolfan, Nos Wener, 6ed o Fawrth, i dechrau am 6 o'r gloch.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLLEN: Gwahoddir ceisiadau oddi wrth sefydliadau a mudiadau yn Neiniolen am gyfraniad o'r Gronfa uchod. Bydd y pentrefwyr yn cofio i'r Gronfa gael ei sefydlu gan y Comisiwn Elusenau at ddibenion elusennol, ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen.

Dylid anfon y ceisiadau ymghyd â chopi o'r Fantolen ddiweddaraf, mewn amlen wedi'i marcio "Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen", i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai Caradog, erbyn dim hwyrach na 31

ATGOFION DYDDIAU YSGOL

Meddwl wrth fynd heibio'r ysgol
Lawer diwrnod, am y newid ddaeth i'r fro,
Hi ei hun, 'rhen Ysgol annwyl, a'i drws ar glo.
Cofio'r rhai a gydeisteddai ar y meinciau brwnt
Ac a chwarddai tra'n carlamu ar ei llychlyd gwr.
Galw'n henwau yn y bore
Wna'i 'rhen Robaits sgwl,
Ninnau'n ateb, yntau'n gwranddo
Onid oeddem yn rhai dwl.
A gofiwch chi'r powlyn, y bach a'r top
Chwipiwyd i gysgu a thro'i'n ddi-stop.
Cicio'r bêl, a cicio'r tresi,
A'r canlyniad, torri ffenestri,
Ei chicio wedyn i gae Rhwngddwryd,
Ddi Wmffra i'r Ysgol, caem ninnau bennyd.
Cofio'r hafau poeth di-ddiwedd
Cael ymdrochi yn afon Garnedd,
Neu ddal ei brithyll lliwgar,
John a fi a hogia'r cipar.
A dirgel wybod lle nythai'r adar,
A'r rhai beiddgar, lle gwelid neidar.
Croesi'r afon dros bont lechan at y coed
Lle ceid ffynnon ddisycheddod lu o blant erioed.
Dinas Llundain oedd gêm y genod
Sgwario'r llawr a naid ar un-troed,
Neidio'r cortyn yn unigol,
Neu un bob pen, a un yn canol.
A gofiwch chi'r drilio fel yn Barics dre,
Hepgor y syms, a gweiddi Hwre,
A cael ein profi gan Syrjant Major,
Merch yr Esgob ddo'i fyny o Fangor.
Cofio'r ddamwain erchyl ar yr allt,
Ninnau'n blant diniwed yn ffaelu dallt.
Awn draw at y siop, blys da-da fel llygod am gaws,
Os dime fyddai gennym, ni fyddem fawr haws.
Dime oedd Dime yn Cynfi House.
Cofio'r gaeafau stormus a'r lluwchfeydd
I ben y cloddia, a'r plant yn cael aros adra.
Dyddiau heulog, neu ddyddiau hegar,
Cerdedd wna'i pawb, dyna'r arfar.
Os yn byw ymhell o'r ysgol dyweder,
Ddi rhieni a'i tē mewn piser.
Cofio'r rhodd Nadolig o afal ac oren
A dderbyniwn yn ddiolchgar a llawen.
Cofio'r athrawon, cofio'r gwersi, cofio'r cwmni a'r direidi,
Cofio'r cychwyn gawsom ynddi, ar yrfa bywyd, diolch iddi.
Yn alltud ar wasgar, fel dail gan wynt
Fu hanes cyfeillion adwaenwn gynt.
Faint heddiw, atebai pe galwai ef
Mae llawer na fedrent o ddyfnder bedd.

H.J.

Mawrth, 1987.

CYNGOR EGLWYSI DEINIOLLEN: Nos Lun, 9 Chwefror, ar wahoddiad y Cyngor agorwyd trafodaeth ddiddorol gan y Parch John Gwilym Jones, Bangor ar y testun "Gweinidogaeth Bro". Cafwyd agoriad treiddgar i'r noson a chyfranwyd gan nifer o gyfeillion i'r drafodaeth fuddiol.

Yn ddiweddarach yr un noson bu'r Cyngor, ar argymhellid y Parch Trefor Lewis, yn trefnu i ddosbarthu cyfran o'r mynydd menyng yn gynigir yn rhad ac am ddim gan y Farchnad Gyffredin i bensiynwyr Deiniolen a Chlwt-y-bont.

Y Parch Erfyl Blainey fydd yn darlithio ar y diweddar Barch John Evans, Eglwysbach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, yn Ffestri Ysgoldy am saith o'r gloch, nos Lun, 9fed o Fawrth. Estynnir croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£200: Cyngor Cymdeithas Llanrug
£100: Cyngor Cymdeithas Llanberis

£5: Cyngor Cymdeithas Betws Garmon

£5: Alwyn ac Alwena, Llanrug
£4: Mrs J M Jones, Ger y Ffynnon, Tal y Bont, Llanrug

£2: Mr a Mrs John Roberts, Caernarfon

£2: Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen, Deiniolen

£1.50: Tristan Jones, 11 Hafod Oleu, Deiniolen

£1.00: Mary Jones, 4 Y Bwthyn, Deiniolen

£1.00: Mrs Fleming, 1 Maes Eilian Dinorwig

OSMOND SHAW DEINIOLLEN

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545



BECWS DEINIOLLEN
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:
LLANBERIS 870232
BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clocioau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg
Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

YR ATLAS CYMRAEG

Mewn cyfarfod cyhoeddi a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a Bangor ar 26 a 27 Chwefror gwelwyd gwireddu'r freuddwyd o gael atlas safonol yn y Gymraeg. Mae cyhoeddi Yr Atlas Cymraeg yn ffrwyth trafod golygyddol a gwaith addasu cartograffig manwl iawn. Gweithgor Panel Atlas Cymraeg Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru a fu'n gyfrifol am yr addasu, dan gadeiryddiaeth Dafydd Orwig a diwygiwyd ffurfiau cannoedd ar gannoedd o enwau anheddau, arweddion ffisegol, taleithiau a gwledydd wrth baratoi'r atlas ar gyfer y wasg.



Golygydd yr Atlas Cymraeg, Dafydd Orwig — brodor o Ddeiniolen.

Ym mis Medi 1980 y penderfynodd Is-banel Atlas Cymraeg y Cyd-bwyllgor Addysg mai *Certificate Atlas* cwmni George Philip y dylid ei addasu i'r Gymraeg, a hynny ar ôl ystyried addasu atlas nifer o wahanol gyhoeddwyd yn Lloegr a'r Alban. Sefydlwyd Gweithgor o chwech o arbenigwr i amlinellu'r polisi golygyddol ar gyfer yr addasu ac i ymgymryd â'r gwaith manwl o baratoi'r 117 tudalen o fapiau, lluniau a diagramau a'r 38 tudalen o ystadegau a mynegai ar gyfer yr argraffiad Cymraeg. Cyfarfu'r Gweithgor bymtheg gwaith, chwe gwaith am ddiwrnod a naw gwaith am ddeuddegdydd, gan weithio'n aml o ddeg y bore tan unarddeg y nos!


Bu'r Gweithgor yn ffodus iawn i gael cymorth parod ysgolheigion yng Nghymru ac mewn llawer gwlad arall. Wrth ffurfio polisi cafwyd cyngor gan ddaeryddwyr ac ieithegwyr sawl gwlad fach arall, o Ynys yr Île i'r Ffindir, a derbyniwyd cyfarwyddyd oddi wrth lysgenadaethau, sefydliadau ac unigolion ar egwyddorion neu ar enwau lleoedd penodol.

Nid gwaith hawdd oedd datblygu polisi ar gyfer addasu enawu tramor. Wrth gychwyn ar y gwaith yr oedd y Gweithgor yn ymwybodol iawn o'r ffactorau a ganlyn: yr angen am atlas Cymraeg i ymestyn tiriogaeth yr iaith; yr angen i barchu enwau tramor yn eu priod

ieithoedd; y ffaith anochel ein bod yn byw yng nghysgod iaith rymusaf y byd a bod defnyddwyr yr atlas hwn yn debyg o weld mapiau Saesneg yn amlach o lawer na rhai Cymraeg.

Penderfynwyd defnyddio enwau brodorol ar drefi a phentrefi yn fuan iawn ond nid mor rhwydd y penderfynwyd beth i'w wneud ag arweddion ffisegol. Y cynnig cyntaf oedd trosi'r cyfan gan roi ffurfiau megis *Ynys Aderyn*, *Bae Di-amau*, *Mynyddoedd Afon Eog*, *Penrhyn Siom*, *Cronfa Clwt Rhyg* ac ati. Pan ddaeth y Gweithgor at *Glyn Cysgod Angau* bu'n rhaid i'r Golygydd weiddi, "Wo! rydan ni wedi mynd i'r gors!" Penderfynwyd newid cyfeiriad wedyn gan droi'r elfen gyntaf yn unig, er enghraifft, *afon* am *bob river, bahr, chu, darya, he, ho, irmak, kiang* a *mörön* neu *cadwyn* am *bob range, alin, cordillera, gebridge, ling, muruu, phanom, serra, sierra, shan, shanmo, tau* a *yoma*. Sylweddolwyd wedyn nad oedd sicrwydd bob tro ynglŷn ag union ystyr rhai geiriau ac nad oedd mwyafrif yr atlasau tramor yn trosi'r rhan fwyaf o'r arweddion ffisegol, yn arbennig yn Asia. A dyma newid cyfeiriad unwaith eto a chyfieithu'r holl elfennau cyntaf Saesneg o *bay* i *sound* ac o *chain* i *strait*, yr elfennau Ffrangeg *cap, île, mont* a *pointe* a'r elfen Eidaleg *monte*. Gan nad oedd y Gweithgor yn cyfieithu'r holl ieithoedd eraill, penderfynwyd cynnwys geirfa a fyddai'n gymorth i ddeall cannoedd lawer o enwau ffisegol ac enwau anheddau. Cyfuniad o egwyddorion a synnwyr y fawd felly sy'n sail i bolisi addasu enwau yn yr atlas a cheir crynodeb ohonynt yn y Rhagair.

Nid mapiau topograffig yn unig a geir yn Yr Atlas Cymraeg; ceir hefyd fapiau yn seiliedig ar themâu megis Amaethyddiaeth, Diwydiant a Phŵer, Cyfathrebu, Poblogaeth. Ar ddechrau'r atlas ceir golwg eang ar gyfansoddiad y byd a'r atmosffer o'i amgylch, a dosbarthiad ei adnoddau a'i boblogaeth. Mae gweddill yr atlas yn ymdrin â phob un o'r cyfandiroedd gan



Clawr Yr Atlas Cymraeg. (Llun: Nigel Hughes)

ganolbwyntio ar rai gwledydd a rhanbarthau penodol a'u nodweddion diddorol. Er enghraifft, dangosir pwysigrwydd diwydiant a thrafnidiaeth ar afon Rhein yng Ngorllewin yr Almaen a'r Iseldiroedd, gwahaniaethau rhanbarthol yn yr Eidal, twf diwydiannol aruthrol Japan a chynnyrch economaidd Gogledd America. Mae i'r atlas dros 100 tudalen o fapiau, yn cynnwys dros 20 tudalen o fapiau ar Ynysoedd Prydain – yn ffisegol, gwledyddol ac economaidd. Ceir hefyd ystadegau cynhwysfawr ynglŷn â phoblogaeth prif wledydd a dinasoedd y byd, cynnyrch

mewnwladol crynswth, masnach ryngwladol ac ystadegau hinsawdd. Argreffir yr atlas safonol a deniadol hwn mewn lliw llawn a'i gyhoeddi am bris rhesymol. Gobeithir y bydd defnydd cyson arno mewn ysgol a chartref a swyddfa ac ar y cyfryngau. Gellir prynu copïau yn eich siop lyfrau Cymraeg leol.

Manylion cyhoeddi

Teitl: Yr Atlas Cymraeg

Golygydd: Dafydd Orwig

Cyhoeddwr: George Philip a'i Fab Cyf., dan nawdd Cynllun Gwerslyfrau ac Adnoddau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru.

Pris: £4.95.



Aelodau Gweithgor Yr Atlas Cymraeg. O'r chwith i'r dde: Iolo M LI Walters (Adran Gymraeg Cyd-bwyllgor Addysg Cymru); Kathryn Evans (Adran Gymraeg y Cyd-bwyllgor); Meurig Rees (Hen Golwyn); Alun Treharne (Adran Gymraeg y Cyd-bwyllgor); Dafydd Orwig (Bethesda, Golygydd yr atlas); Huw Lewis (Yr Wyddgrug); Gareth Jones (Aberystwyth) ac Eluned Rowlands (Aberystwyth). Yr oedd un aelod o'r Gweithgor yn absennol pan dynnwyd y llun, sef R Cyril Hughes (Penmynydd, Llanfaïrpwll). (Llun: Nigel Hughes).


Eisteddfod Gadeiriol Y FFÔR (ger Pwllheli)

SYLWER NEWID DYDDIAD

Cynhelir yr Eisteddfod yn awr ar Ddydd Sadwrn, 6 Mehefin, 1987 am 12 o'r gloch y pŵn a 6 yr hwyr.

Eluned Parry, (Ysgrifenyddes), Argraig, Y Ffôr, Pwllheli.
Ffôn: Chwillog 685

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

MELINAU Y CRAWIA

gan Meurig Owen, Llundain

Yng nghanol yr Iard yn Gilfach Ddu, yn awr yr Amgueddfa, saif adeilad bychan ac ynddo rai enghreifftiau o'r defnydd a wnaed o'r llechfaen heblaw cerrig toi. Un y gŵyr pawb amdano yw llechi ysgrifennu ac yn yr adeilad hwnnw mae hysbyseb "J Jones and Son, Crawia Slate Works, Llanrug, North Wales. School slates for H M Government from Felinheli or Dinorwig slates." Nid dyma'r unig gwmni fu'n cynhyrchu llechi ysgol, cawsom atgofion diddorol am felin Samuel Jones, Glandinorwig ac eraill yn ardal Clwtybont yn Eco'r Wyddfa. Fel un a chanddo gof plentyn ifanc iawn am Felinau'r Crawia neu Felinau Thomas Jones yn gweithio ac un fu'n defnyddio llechen ysgol, teimlaf reidrwydd i geisio cofnodi rhywbeth amdanynt. Arferem ddefnyddio llechi ysgrifennu yn Ysgol y Babanod yn Festri'r Capel Mawr o dan ofal Miss Williams, Ty'n Winllan. Gorlif o Ysgol Glanmoelyn ar gyfer y babanod oedd ysgol y Festri yn y dyddiau cyn adeiladu yr Ysgol Gynradd bresennol yn y dau ddegau ac yno, ar yr agoriad yr aethom gyda Miss Williams. Coffa da amdani, rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth i blant lleiaf y pentref, mae'n dyled iddi yn fawr. Un ddefod bwysig oedd dangos bob bore fod gan bob un ohonom ddau glwt trwy eu dal i fyny, un i sychu ein trwynau a'r llall i lanhau'r lechen. Nid oeddynt i gael eu cymysgu ac yn sicr ni chaniateid defnyddio llawes y jersey at un o'r ddau bwrpas.

Ond nid yn unig am i mi fod yn anuniongyrchol yn un o gwsmeriaid rhyw felin lechi y ceisiaf gofnodi yr hyn a gofiai am felinau y Crawia yn y dau ddegau a dechrau'r tri degau, efallai y gall hyn fod yn gymorth i haneswyr lleol y dyfodol. Bu Thomas Jones yn flaenllaw yn Llanrug am flynyddoedd, cyfranodd lawer i fywyd yr ardal, bu'n selog dros addysg a chefnogodd yr ysgolion lleol. Gobeithiaf, felly dalu teyrnged fach i'w goffadwriaeth ef a'r teulu, teyrnged oddi wrth un o hogiau'r Bont oedd yn lled gyfarwydd a chylch y melinau hanner cant o flynyddoedd yn ôl.

Dibynnaf ar fy nghof, cof plentyn yn yr ardddegau cynnar a rhyw fap neu ddau, felly'n sicr bydd diffygion a chamgymeriadau yn y tipyn nodiadau hyn. Gadewais Llanrug yn 1937 a rhyw ddwywaith er hynny y bum yn agos i safle un o'r melinau, y tro olaf yn 1973. O gofio y tyfiant gyda rheilffordd y Chwarel y flwyddyn honno, arswydaf wrth feddwl am geisio mynd at y felin uchaf a'r felin ganol y dyddiau yma. Felly rhaid dibynnu ar y cof gan obeithio y cawn fwy o wybodaeth gan rai o'r hen gyfeillion gynt a gwell syniad ganddynt am y ffordd y gweithiai'r melinau.

Ond am beth y soniwn? Defnyddid dŵr afon Rhythallt, neu'r Seiont fel y mynoch, o Bontrhythallt i'r Crawia i droi pum melin. Dechreuwn gyda'r unig un oedd ym mhlwyf Llanrug, bydd ei nodi yn ddigon. Melin flawd y Crawia oedd hon, Vaynol Mill.

Defnyddid dŵr o Lyn y Crawia i'w throli. Rhedai'r ffrwd o dan y ffordd ger y bont i'r felin ar lan yr afon. O'r pedair sydd ar ôl, mae un yn ddirgelwch hollol i mi er fy mod yn gyfarwydd a'i safle. Mae adfeilion hon yn y Garw sef y tir gwyllt rhwng rheilffordd Caernarfon-Llanberis a'r afon, yn agos at y lan gan dynnu dŵr o Lyn Doctor pan weithiai. Gwell i ni ei galw yn felin y Garw. Y tair melin arall rhwng y ddwy reilffordd, dyma felinau Thomas Jones, y cofiaf i yn gweithio a chyfeiriaf atynt yn naturiol ddigon fel y felin uchaf, y nesaf at Bontrhythallt, y felin ganol a'r felin isaf ger Tyddyn y Felin. Naturiol yw meddwl, oherwydd agosrwydd rheilffordd y Chwarel, y buasai sôn am y melinau hyn ym mhapurau'r Faenol, ond y ffermydd cyfagos yw'r Glasgoed a Thyddyn y Felin. Felly dyma ni yn un o'r ynysoedd hynny ym mhlwyf Llanddeiniolen nad oeddynt yn eiddo'r Faenol. Perthyn i ystad Coed Alun oeddynt. Mae cytundeb yn yr Archifdy yng Nghaernarfon dyddiedig Mawrth 3, 1819, rhwng Rice Thomas, Coed Helen a Griffith Roberts ynglŷn â thenantiaeth Tyddyn y Felin (X-Coed Helen - 218). Felly cyfyd y cwestiwn yn naturiol ym mhle yr oedd y felin? a gallwn ofyn pa mor bell yn ôl o 1819 yr aiff Tyddyn y Felin fel ffarm. Dyma waith ymchwil i rywun yn y cylch. Ofnaf y cwyna y teulu os treuliaf fy holl wyliau yn yr Archifdy neu'r Llyfrgelloedd.

Mae cryn bellter o Dyddyn y

Felin i'r afon, ond heb wybodaeth fanylach, onid ar y safle yn y Garw gan dynnu dŵr o Lyn Doctor, y dylai'r felin fod? Tra dangosir Tyddyn y Felin, Glasgoed, Talsarn a Phenrhyn ar fap modfedd yr Ordnans, 1840 nid oes sôn am unrhyw felin yn y rhan yma o Landdeiniolen. Trown i Fapiau'r Degwm, 1846, dangosir rheilffordd y Chwarel dan yr hen enw, Padarn Railway, ond ni ymddengys adeiladau ar ei chwrw o'r Pandy i Bensarn. Gyda glan yr afon, ar dir Tyddyn y Felin ymddengys rhywbeth tebyg i adeilad gyda ffrwd o Lyn Doctor wrth ei dalcen a red yn ôl i'r afon. Rhaid mai melin yw ond nid oes dim ychwanegol ar y map i gadarnhau hynny. Yn anffodus, nid yw Rhestrir Dosbarth yn gymorth chwaith. Dengys rhai Llanddeiniolen y ffermydd yn unig gyda swm y dreth yn lle'r degwm ond ni cheir disgrifiad o'r caeau fel yn amryw o blwyfi eraill. Ni sonir ynddynt am felin chwaith hyd y gwelaf. Efallai bod melin yma ers blynnyddoedd a addaswyd neu a ailadeiladydd fel melin lechi.

Dengys mapiau 25 modfedd yr Ordnans, 1887-89, y pedair melin fel y disgwyliad ond Pont Rhythell Slate Works sydd ar y felin uchaf a'r ganol a Crawia Mills (Slate) wrth ymyl melin y Garw, a chyfeiria'r enw yma at y felin isaf hefyd. Yr un wybodaeth sydd ar fap 1900 am y Crawia Mills. Gweithwyd y Bontrhythallt Slate Works ar wahan i'r Crawia am gyfnod beth bynnag. Deuai'r dŵr i droi y melinau hyn o Lyn John Owen, tybed mai dyma enw'r adeiladydd neu'r perchenog cyntaf? Dengys Worralls Directory rhyw dro ar ôl 1871, ymhlith cynhyrchwyr llechi ysgrifennu, William Jones & Co, Bontrhythallt Slate Works a William Owens & Co, Crawia Slate Works. Gweithwyd hwy ar wahan a gellid gwneud hynny yn sicr. Erbyn 1889 yn ôl Suttons Directory 1889-90 gweithid y tair melin gan J Jones & Son, Bontrhythallt and Crawia Slate Works a rhestrir Thomas Jones, Crawia Terrace ymhlith y Trigolion Preifat yn Llanrug.

Credaf hefyd y gweithid melin y Garw ar wahan i'r felin isaf er y defnyddid yr un enw. Arwyddwyd y ddeiseb at Gyfarwyddwr Rheilffordd Caernarfon-Llanberis am orsaf ym Mhensarn yn 1868 dros Williams Owens & Co, Crawia Slate Works a Richard Jones & Co, Crawia Slate Works, dau gwmni, dwy felin. Gweithiai melin y Garw

debyg yn 1900 ond erbyn fy nghyfnod i yr oedd yn adfeilion, cofiaf fod ei thalcen yn sefyll. Ym mha gyflwr y mae yn awr nis gwn, a oes gwybodaeth gan rhywun o'i hanes?

Yn ôl y "Traethodau ar Waen Gynfi" adeiladwyd melin Samuel Jones, Glandinorwig yn 1854 a dyma'r cyfnod, yn 1850-1860au, y buasem yn disgwyl gweld melinau fel hyn yn ffynnu. Gan fy mod yn hollol yn y tywyllwch ynglŷn â'r dyddiadau nes ceir gwybodaeth o rywle, awgrymaf mai yn y 1859au yr adeiladwyd y tair melin arall cyn dechrau adeiladu rheilffordd Caernarfon-Llanberis. Ffurfiwyd Cwmni'r rheilffordd honno yn 1864, ac agorwyd y rheilffordd ar Orffennaf 1, 1869. Yr oedd cysylltiad rhyngddi a'r felin ganol. Gorfu i adeiladwyr y rheilffordd gario'r cledrau dros bedair ffrwd y melinau mewn cylfertiau o dani, sef y ffrydiau i droi y felin uchaf a'r ganol o Lyn John Owen a'r felin isaf o Lyn Garreg Fawr, a'r ffrwd o'r felin uchaf a'r ganol (y tailrace) yn ôl i'r afon wrth y Rhaeadr, a'r cyffelyb o'r felin isaf i redeg i Lyn y Crawia. Mae gwaith saer maen ar agoriadau'r cylfertiau o dan y rheilffordd, yn arbennig yr un mawr sgwâr ym mur uchel y rheilffordd wrth y Rhaeadr. Yn ei adroddiad i Fwrdd y Cyfarwyddwyr a gyfarfu Medi 26, 1865, dywed y peiriannydd, Mr Charles Rolfe fod pont dros dro wedi ei hadeiladu dros y Seiont ym Mhontrhythallt gyda chob o'r bont am tua hanner milltir i gyfeiriad Caernarfon. "There also are many men at work preparing stone for the bridges, making the embankment which is progressing rapidly from Bontrhythallt to the parish stepping stones (rhyd y Crawia) and downward through Mr Smith's land." (Cofnodion Cyfarfodydd y Cyfarwyddwyr yn y Public Records Office). Ni sonir am y melinau na'r ffrydiau ac ni ddeuthum ar draws unrhyw blaniau fuasai'n egluro'r sefyllfa hyd yn hyn. Ond rhesymol yw credu fod y melinau'n gweithio pan adeiladwyd y lein, ni chredaf yr aed ati i dorri cylfertiau odani ar ôl ei chwblhau.

Sut ddarlun gawn o'r perchenogion os chwiliwn y Cyfarwyddiadauron sydd yn yr Archifdy yng Nghaernarfon gan gofio fod Williams Owens & Co a Richard Jones & Co yn y Crawia Slate Works yn 1868.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.



BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448

Hoelion, Sgriws, Boltiau, "Fasteners",
Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a
hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn
y fro.

**Discownt o
25% ar Dŵls**

Caernarfon Industrial Supplies



W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Y "BLACK AND AMBERS"

Mwy o atgofion Goronwy Owen

Roedd yna anghydfod ym mhentra Llanberis ynghylch y Tîm Mawr, anghydfod, ond nid gwrthryfel. Casglen i gyd i gae Padarn Villa i gefnogi'r bechgyn, ac ymfalchiwm yn y clod ddeuai yn sgil eu llwyddiant, i'r ardal, ond roedd ganddom un gŵyn fawr. Doedd yna ddim siawns i ni'r chwaraewyr ieuengaf, i gael cyfle. Yn wir, fe gollodd rhai o'r hogia hyn a oedd yn y tîm ar y dechra, eu lle, oherwydd polisi y pwyllgor, o dan lywyddiaeth Jac Parc. Iddo ef a'i gyd-aelodau y mae'r clod am greu tîm mor dda. Ond, dim ond un ar ddeg oedd yn cael eu dewis. Doedd dim 'substitute', dim ail dîm na threfniadau ar gyfer ymarfer i'r gweddill ohonom. Roedd cae iawn ar ein cyfer yn Ysgol Brynrefail, ond doedd dim yn y penra. Doedd wiw i ni drio cael gêm ar gae Padarn Villa. Un ai fe ddeuai Mrs Owen ei hun allan i'n hel ni i ffordd, ne fe gai y sarjant i'n clirio ni oddi yno, ac roedd ei weld o, yn ddigon i ni i gyd ei heglu hi dros wal y relwê mewn hanner munud fflat. Ein hunig feysydd chwarae oedd Cae Bil, Cae Uchaf a Chae Coed, a doedd yr un o'r tri yn addas o bell ffordd.

Ychydig cyn y gêm ar brynhawn Sadwrn, disgynnai pum 'forward' oddiar y bws o Gaernarfon - llinell o flaenwyr oedd yn codi ofn ar bob tîm arall yn y 'Bangor and District'. Darllenais eu henwau wythnos ar ôl wythnos, a thymor ar ôl tymor, ar y pisin papur fyddai yn ffenest siop Robin Angel. Wrth eu llys enwau y cofiaf hwy heddiw - Ianto, Twm Twm, Rol Bach, Dafydd Jên Ann a Dafydd Anni Dora. Sylwch mai wrth enw eu mam roedd y ddau olaf yn cael eu hadnabod, dwy ferch a gofiaf fi am byth, er i mi erioed weld yr un ohonynt.

Un tal gwynnog oedd Ianto, gyda dau benglin yn symud fel pistons injan. Dim ond iddo ef gael y bêl o'i flaen, ac fe redai gwefr drwy'r dorf di-fwlch, a safai o amgylch y cae. Unwaith y cychwynai ef am y gornel, doedd bron dim modd ei atal, cyn iddo sentro'r bêl i geg y gôl. Yno yn ei haros roedd tri teigr. Rhoddai Twm Twm yr argraff ei fod yn eiddil, ond

fel Jimmy Greaves, gwyddai yn iawn ble roedd cefn y rhwyd. Stwcyd solat oedd Rol Bach, hefo dau benelin oedd yn cadw pob amddiffynwr 'lathen i ffordd', tra roedd Dafydd Jên Ann yn fachgen diflinedig, bob amser yn y lle iawn ar yr amser iawn. Ond ar yr asgell chwith roedd fy ffeffryn i - Dafydd Anni Dora. Athro yn Ysgol Higher Grade ydoedd, yn gwybod sut i reoli pêl yn ogystal a rheoli plant. Cerddai yn hytrach na rhedeg, i fyny ac i lawr yr asgell chwith, byth bron yn codi stêm, yn hollol wahanol i Ianto, a fyddai ambell i dro, yn ei gyflymder, yn gor redeg y bêl.

Pryfocio ei wrthwynebwyd y byddai Dafydd Anni Dora gan osgoi'r bêl yn ôl ac ymlaen. Credaf mai ei goes dde oedd ei goes naturiol, oherwydd ei hoff arferiad oedd mynd a'r bêl i mewn ar hyd y lein gôl, at y postyn agosaf, cyn ei gwthio at y sbotyn penalti, lle byddai un o'r tri teigr yn eiddgar



aros amdani. Droed y'i gwelais ef yn cychwyn o'r gornel gan ysgwyd ei droed fel hudlath dros y bêl, a siglo ei gorff fel balerina, tra byddai hogia'r tîm arall yn rhedeg i bob cyfeiriad, fel perchyll hurt. Os y cai y ffordd yma wedi ei chau, tynnai'r bêl yn ôl efo'i droed chwith, a'i gollwng hefo'i droed dde ar ben Rol Bach. Fe ddysgais i fy ffwftbol wrth ei wyllo, gan ei ddilyn hanner amser o gornel y Stesion i gornel Bon Marche. Ni chredaf iddo ef na Ianto sgorio llawer. Dau asgellwr pur oeddynt, yn temptio'r amddiffynwyr allan o'r ffordd, er mwyn i eraill roi y bêl rhwng y pyst. Defnyddiai'r ddau ddulliau hollol wahanol, - Ianto mor ddiysgog â tharw gwyllt, a Dafydd mor annisgwyladwy â dafad ar ddisberod. Dyma ddau hollol wahanol i'w gilydd yn cyrraedd yr un nôd hefo'r un llwyddiant.

Deuai chwaraewr arall oddiar y

bws hefyd, sef Gwilym y goli. Bu ef farw rhyw ddwy flynedd yn ôl, yn ddall yn ei henoed. Trueni fod y ddau lygaid craff a welai bob pêl mor gyflym wedi pylu cyn y diwedd. Cofiaf ef yn llafnyn ifanc, un ar bymtheg oed, yn dod i stryd Llainwen.

Gweithiai i Hoosens, y Cafe, a'i ddyletswydd oedd llenwi berfa feic hefo teisennau a reidio i'r gwahanol bentrefi i'w gwerthu. Dyna ffordd i fagu gwynnau, sef reidio berfa beic llawn bob dydd i bentrefi Dyffryn Seiont. Roedd gan Gwilym gorff cyn gleted â haearn bwrw, ac yn derbyn y 'cnocs' yn y gôl yr un mor amyneddgar ac y dechreuodd ennill ei fywoliaeth.

Hogia Dre oedd hanner tîm mawr y 'Black and Ambers', ond mi oeddynt yn chwaraewyr digymharol, ac fe roisent oriau o bleser i lu o bobl.

Cyfarwyddiadur	Pontrhyallt Slate Works	Crawia Slate Works
Worral (wedi 1871)	William Jones & CO	
Cassey: Chester & N Wales 1876		Williams Owens & Co Williams Owens & Co
Slaters 1880		Humphreys & Owen Owens Williams & Co
Suttons: N Wales 1889-90 Slaters: 1895	J Jones & Son J Jones & Son	J Jones & Son

yw dangos Williams Owens & Co fel Owens Williams & Co. Beth wnawn o'r *New Crawia Works*; Henry Owen & Son? Os cymharwn fap 25 modfedd yr Ordnans, 1889 gydag un 1900, un melin ac un olwyn sydd yn y felin isaf yn ôl map 1889 ond ymddengys adeilad helaeth arall ac olwyn ychwanegol yn yr olaf. Dyma debyg gyfnod adeiladu'r *New Crawia*.

i'w barhau y mis nesaf

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwyd**

ond dangosir yn hwn hefyd *Henry Owen & Son, New Crawia Works*. Dipyn o ddirgelwch sydd yn Slaters 1880, dengys hefyd mae Humphreys & Owen oedd perchenogion Melin Lechi Pontrug.

Mae'r un wybodaeth yn Suttons 1889 a Slaters 1895 ond am Felin Pontrug yn unig, efallai na fu gan y cwmni yma ddiddordeb yn y Crawia yn 1880 ac mae camgymeriad hefyd

DEINIOLEN parhad

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI: Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Steddfod ar nos Wener, 23 Ionawr. Eleni eto siomedig oedd y gefnogaeth i'r Cyfarfod, ond nid amharodd hynny ar frwdfrydded y ffyddloniaid. Yn y cyfarfod, bu cloriannu ar Steddfod 1986, a diolchwyd gan y Llywydd, y Parch Trefor Lewis am y cydweithredu a fu'n sail ei llwyddiant. Etholwyd Pwyllgor Gwaith am 1987, ac mewn cyfarfod diweddarach o'r Pwyllgor hwnnw fe etholwyd Is-Bwyllgorau i drefnu ar gyfer Steddfod 1987 sydd i'w chynnal ar 30 a 31 Hydref. Eisoes mae argoelion y ceir Steddfod dda arall, gwyliwch yr Eco am ragor o fanylion.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047



22 BRYNTIRION

TACIS WEBB

PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

**NEWYDD
AGOR!
SIOP
BAENT
STORFA
TŶ NEWYDD**

BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI

ECO'R IFANC

UGAIN MLYNEDD YN ÔL . . .



GWOB R Y GWYDDONYDD 1966

Buddugol: Griffith Meirion Davies, Gwyndaf Lloyd Hughes a David Jones Sherrington o'r chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail.

Testun y gwaith: Ymchwil i Batrwm Etifeddeg mewn Teulu, Pentre ac Ardal.

Gwnaed yr astudiaeth ar deulu un o'r awduron, sef pedwar ar ddeg o frodyr a chwiorydd gyda'u gwragedd a'u gwŷr a phedwar ar hugain o blant. Holwyd pedwar cant o blant yr ysgol a chant o drigolion Deiniolen. Dewiswyd pum nodwedd sy'n debyg o fod yn etifeddegol - gwallt coch, tuedd i fod yn llawchwith, clust ynghlwm

wrth y foch yn hytrach nag yn rhydd fel pendil, anallu i rowlio'r tafod ar ffurf tiwb, a'r modd y plethir y dwylo.

Beirniadaeth: Dyma astudiaeth ofalus, manwl a phwrpasol wedi ei chynllunio'n dda ac wedi ei gweithio yn raenus. Gallwn dybio fod y gwaith wedi llenwi oriau hamdden yr awduron am rai wythnosau, ac y mae arwyddion o gyd-weithio effeithiol.

Yn y llun gwelir un o reolwyr Cwmni Cambrian Airways yn cyflwyno'r siec, a'r Athro Gwyn Chambers o Goleg y Brifysgol Bangor yn cynrychioli'r Gwyddonydd.

SIBRYDION O YSGOL BRYNREFAIL

YR URDD: Cafodd aelodau'r Urdd nosweithiau difyr iawn yn ystod y mis. Diwedd mis Ionawr cafwyd Gyrfa Chwilen, a Ionawr 27ain daeth Mr Ifan Roberts o Gwmni Teledu'r Tir Glas i roi sgwrs a dangos ffilmiau. Nos Fawrth, 10fed o Chwefror cafwyd sleidiau ar Fyd Natur gan Mr Duncan Brown.

Aeth tua deugain o aelodau'r Urdd o ddosbarthiadau 1, 2 a 3 yr ysgol am benwythnos i Lanlllyn o Chwefror 6ed i'r 8fed. Mwynhaodd pawb eu hunain.

TRAFODAETH GRISTNOGOL: Bore lau, 19eg o Chwefror daeth Dr Rhiannon Lloyd i'r ysgol i roi sgwrs i ddisgyblion y chweched dosbarth, sy'n astudio Lefel 'A' Ysgrythur, am ei phrofiadau Cristnogol. Cafwyd amser diddorol iawn yn ei chwmmi. Doctor meddygol yw hi a seiciatrydd ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda'r ifanc yng nghapeli y Rhyl, a rhan o'i gwaith yw siarad gyda phobl

am ei phrofiadau. Yn ogystal â hyn y mae wedi bod yn cenhadu mewn llawer o wledydd tramor.

NATUR

Gwelais yr ŵyn yn prancio
Yn hapus ar hyd y bryn
A'u mamau yn poeni drostynt
Fel ein mamau ni.
Teimlais yr Haf yn dyfod
I dyfu'r gwenith a'r ŷd,
Yna fe ddaeth yr Hydref
A'i law cras crebachlyd
i ddinistrio'r Gwanwyn a'r Haf.
Cyffyrddais â'r marwol ddail
A oedd fel carped amryliw ar y llawr
A'r dail a newidiodd eu lliwiau
fel enfys ar y rhod.
Meddyliais am y coed yn noeth
ac yn oer.
Cyffyrddais â deilen
ac i'm syndod mi dorrodd yn fy llaw.
Un digri yw
Natur.

Tracy Anne Hughes 3a2

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



YN DECHRAU AR S4C · CHWEFOR 27
PNAWN GWENER · 5 O'R GLOCH

Rhew Poeth

CYFRES DDRAWA HWYLIOG AM BOBL IFANC
FFILMAU'R NANT · MOREIA · PENRAILLT ISAF · CAERNARFON 5722



CYHOEDDI PECYN GWYBODAETH I'R PUMED DOSBARTH

Mae Gwasanaeth Gyrfaoedd Gwynedd newydd gyhoeddi'r trydydd argraffiad o'i Becyn Gwybodaeth i Ddisgyblion y Bumed Flwyddyn.

Caiff y pecyn ei ddosbarthu i bob un o ddisgyblion y bumed flwyddyn yn Ysgolion Uwchradd y sir. Ynddo ceir gwybodaeth am y dewisiadau sy'n wynebu pobl ifanc ar ddiwedd eu pumed flwyddyn, sef: aros yn yr ysgol, mynd ymlaen i Addysg Bel-lach, chwilio am waith, neu gael hyf-forddiant o dan Gynllun Hyf-forddi'r Ifanc. Ynddo hefyd ceir cyngor ynglŷn â sut i fynd ati i chwilio am waith ac i ymgeisio am swyddi. Esbonir sut y gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd helpu

gyda'r dewisiadau hyn.

Cynlluniwyd y pecyn fel y gellir ei ddefnyddio yn y dosbarth fel rhan o raglen gyrfaoedd yr ysgol, a hefyd ei ddefnyddio gartref. Mae llawer o rieni wedi nodi iddynt gael y pecyn o gymorth mewn egluro maes a lall fod yn ddrys dros ben.

Bydd y "Pecyn Gwybodaeth i Ddisgyblion y Bumed Flwyddyn" ar gael yn yr ysgol gan yr Athrawon Gyrfaoedd, a dylai pob disgybl pumed flwyddyn sicrhau ei fod ef neu hi yn derbyn copi.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â Gwasanaeth Gyrfaoedd Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon ar 4121 (Alun Roberts)

Natur

Gwelais ddeilen orengoch yn disgyn
Yn ysgafn, yn ysgwyd o ochr i ochr,
Meddyliais amdani yn gadael y goeden
A'r brigau hir, miniog fel bysedd hen wraig.
Cyffyrddais â chroen y goeden,
Fel croen hen ddyn.
Teimlais y gwynt oer yn chwythu
Yn erbyn fy nghroen.
Roedd fel cael fy nharo â rhew.
Syllais am hir ar y goeden, a meddyliais
amdani fel un brigyn bach,
fel blewyn tlla yn tyfu o ben babi,
A hithau wedi parhau trwy'r
gwynt a'r glaw a phob math o dywydd.
Natur.

Jennifer Clarida. 3B Seiont

CHWYTHU LLWYDDIANNUS



Aelodau Band leuenctid Deiniolen a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaethau Unigolion, Deuwadaw a Phedwarawdau Gogledd Cymru ym Mangor yn ddiweddar. Fel yr adroddwyd ar y dudalen flaen, roedd y pedwarawd dan 12 oed yn fuddugol. Enillwyr eraill yn y llun yw Iwan a Dylan - 2il ar y ddeuwad dan 16 oed; Iwan, 2il ar yr unawd "Slow Melody" dan 16 oed; Dylan, 2il ar yr "Air Varie" dan 16 oed, ac Elidir, 5ed ar yr unawd dan 12 oed.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

DEUGAIN MLYNEDD O WASANAETH I FANDIAU PRES




Aelodau o Fand Deiniolen a dderbyniodd Fedal Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru am roi 40 mlynedd neu fwy o wasanaeth i fudiad y Bandiau Pres. Dyma'r rhai a dderbyniodd fedal: Emrys Pritchard, Tommy Williams, Morus Williams, John E Morris, William G Morris, John G Jones, David W Jones, Ellis W Williams, Owie Parry, Richard A Lewis, Donald Jones a Tommy A Parry. Yn anffodus, nid oedd yn bosibl i bawb fod yn bresennol.



Aelodau o Fand Llanrug a dderbyniodd Fedal Cymdeithas Bandiau Pres Gogledd Cymru: James Jones, Frank Boylin, Reg Moon, Fred Flynn, Glyn Williams a Harry Roberts (heb fod yn y llun)

IEUENCTID LLWYDDIANNUS BAND LLANRUG BAND DEINIOLEN



KEVIN TAME — 1af dan 16 oed: "Slow Melody".



DYLAN WILLIAMS — 2il dan 16 oed: "Air Varie"

DRAENOG



Mae'r Royal Mail yn celebratio y 400th anniversary translatio'r Beibl i Welsh hefo special stamps ar St. David's Day, 1988.

Dyma ddywedodd Colin Burbage, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa'r Post yng Nghymru: "The translation of the Bible has ensured the survival of the Welsh language . . . we are delighted to announce that the importance of this anniversary will be recognised in this way."

Y Post Offis yn dangos gwerth y Gymraeg drwy anfon gwybodaeth i'r Wasg — yn uniaith Saesneg. Roll over Bishop Morgan

**YN EISIAU
PERSON BRWDFRYDIG I FOD
YN GYFRIFOL AM "ECO'R
IFANC"**
Cysyllter â'r golygyddion

Torrwch yr arfer

Diwrnod Cenedlaethol Dim Smygu 11 Mawrth 1987

Helpu pobol sy' eisiau rhoi'r gorau i smygu

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

PRIODAS RUDDER: Dathlodd Mr a Mrs Welsby, Tremallt eu Priodas Ruddem ar Chwefror yr 8fed. Estynnwn ein llongyfarchiadau iddynt ar yr achlysur hwn. Mae iddynt le cynnes yn ein plith, bob amser yn barod eu cymwynas yn y gymdeithas ac yn arbennig felly frwdfrydedd a gweithgarwch Mr Welsby ynglŷn â Chlwb yr Henoed yn y pentref yn y blynyddoedd a fu. Dymunwn iddynt lawer blwyddyn eto yng nghwmni ei gilydd.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Marian Jones, 3 Trem Eilian ar ei llwyddiant mewn arholiad canu'r piano Gradd 1 gyda chlod dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

CYDYMDEIMLAD: Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â theulu Mr Mrs Gwyn Hefin Jones, Min-y-Nant, Cwmyglo, yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl, sef Mr Gwynedd Peris Jones, Penrhosgarnedd, Bangor. Yr oedd Mr Jones yn ŵr hawddgar a chymeradwy iawn yn ein plith a bu yn barod iawn ei wasanaeth i'r oedfaon yng Nghapel MC Brynrefail.

CLWB Y MAMAU: Nos Lun, Chwefror 9fed, cafwyd sgwrs gan Vanessa Anderson o'r Siop Bwydydd Iach yng Nghaernarfon, yn trafod rhinweddau gwahanol fwydydd a chynghori sut i fwyta'n iach. Paratowyd y te gan Helen Jones, 5 Trem Eilian a Margaret McKormack, 9 Trem Eilian. Rhoddwyd y raffl gan Pat Smith, 1 Tai Orwig ac fe'i henillwyd gan Jackie Jones, Nant-y-Glyn, Llanrug.

YMWELD AG AWSTRALIA: Pan oeddym ni yn dioddef gerwinder tywydd gaeafol lonawr eleni, 'roedd teulu 1 Minffordd yng ngwres yr haul tanbaid yn Awstralia. Nid hwn oedd y tro cyntaf i Mr Alwyn Roberts roi ei droed ar y Cyfandir gan iddo ymweld ag Awstralia yn 1982. Diddordeb mewn criced oedd yn bennaf gyfrifol am yr ymweliad hwnnw yn ogystal â dyhead cryf ers blynyddoedd am gael mynd i'r cwr hwn o'r byd. Ers hynny bu'n uchelgais gan y teulu i gael mynd gyda'i gilydd os deuai'r cyfle, a gwiredwyd hynny ar ddechrau 1987.

Wedi hedfan i Perth, bu Alwyn, Shirley, Nail a Rodney yn teithio o un dref i'r llall ar hyd yr arfordir deheuol a dwyreiniol - Adelaide, Melbourne, Sydney, Brisbane, Surfers Paradise, Alice Springs; yna i'r canolbarth lle bu Alwyn, Neil a Rodney yn dringo Ayres Rock. Treuliasant bedwar niwrnod yn Darwin cyn hedfan i Ynys Bali ac oddi yno hedfan y daith hir yn ôl i Brydain. Amcangyfrifir gan y teulu iddynt deithio oddeutu 8,000 o filltiroedd ar y Cyfandir. Yn naturiol,

cafwyd cyfle i wyllo criced yn Sydney ynghyd â chystadleuaeth yr America's Cup yn Fremantle. Roedd yn brofiad cael gweld y cangarŵ a'r eirth koala yn eu cynefin a chael cyffwrdd â'r anifeiliaid. Ymhlith y golygfeydd trawiadol a welwyd oedd y 'Great Barrier Reef', ond y rhyfeddod a adawodd fwyaf o argraff oedd mawredd aruthrol Tŷ Opera Sydney. Fodd bynnaf, rhaid oedd gadael yr holl ryfeddodau a dod gartref, heb amheuaeth dychwelyd i Awstralia fydd y nod eto yn y dyfodol. Braf iawn oedd cael cyrraedd adref a chanfod fod popeth yn eu cartref mewn trefn.

Dymuna Mr a Mrs Roberts ddiolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Wilbert Williams, Marino am eu cymwynas parod yn gofalu am bopeth mor drylwyr.

PROFEDIGAETH: Ddydd Sul, Chwefror 15fed, bu farw Keith Raymond Jones, mab Mr a Mrs Malcolm Jones, 4 'Rallt a brawd Malcolm a Mark, yn 16 mlwydd oed. Bu'r angladd cyhoeddus yng Nghapel Brynrefail ddydd lau, Chwefror 19eg gyda'r Parch John Morris yn gwasanaethu. Talwyd teyrnged deilwng i Keith ar ran Ysgol Pendarar gan Mr W Myfyr Parry. Cyfeiriodd at Keith fel un a gâi lawer o fwynhad a phleser yn yr ysgol a hynny yn wyneb llawer o anabledd. 'Roedd perthynas annwyl iawn yn bodoli rhyngddo â'r disgyblion eraill a dangosai falchder neilltuol yn ei lwyddiant mewn gwersi ymarferol a meddai hoffter arbennig tuag at gerddoriaeth. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i rieni, ei frodyr a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cyfarfu'r gangen nos Lun, Chwefror 16eg yng nghwmni Mr Medwyn Williams yn rhoi sgwrs ar arddio. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Euronwy Roberts, 8 Trem Eilian a Mrs Eirlys Williams, Marino. Enillwyd y wobwr raffl rhoddedig gan Mrs Carol Houston gan Mrs Eirlys Williams. Ddydd Sadwrn, Chwefror 7fed, bu pum aelod o'r gangen ar ymweliad â Chyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched yng Nghaernarfon. Gwesteion y Cyngor oedd cangen Deiniolen ac estynwyd croeso ganddynt i'r gwahanol ganghennau oedd yn bresennol. Y siaradwr gwâdd oedd Mr Gwilym Meredydd Jones a chafwyd ganddo sgwrs, a werthfawrogwyd yn fawr, ar ei waith cyn ymddeol fel prifathro yn Lerpwl.

Dethlir Gŵyl Ddewi nos Lun, Mawrth 2il gyda phryd yng Ngwesty Padarn Lake, Llanberis, ac ar Fawrth 19eg bydd aelodau o'r gangen yn

cymryd rhan mewn cystadleuaeth badminton yng Nghanolfan Hamdden Arfon dan nawdd Sefydliad y Merched Gwyrfa. Bydd Mrs Carol Houston, yr ysgrifenyddes yn derbyn enwau y rhai sydd â diddordeb yn y ddau weithgaredd yma. Bydd pedair o'r aelodau yn treulio penwythnos gyntaf mis Mawrth ym Mhlas Tanybwlich pryd y byddant yn dilyn cyrsiau naill ai

mewn Cwiltio, Hen Bethau neu Wyllo Adar. Derbyniodd y gangen hefyd wahoddiad gan Sefydliad y Merched Cyffordd Llandudno i gymryd rhan mewn gêm gyfeillgar dartiau sydd i'w chynnal ar Fawrth 26ain.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Eryl Davies, Bryn Madog ar enedigaeth eu merch, Ceri Angharad, ddydd Mercher, Chwefror 18fed - chwaer fach i Gareth a Lola.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

Y dyddiau hyn mae cwmwl du yn hongian dros ein pentref, ac anodd iawn yw dod o hyd i'r geiriau priodol i ddatgan teimladau'r pentrefwyr. Pythefnos yn ôl daeth y newydd trist am un o'n pobl ifanc, sef Sara Wallace Edwards, Maes-y-Coed. A hithau ond yn ddeunaw oed, ac yn dechreu ar ei gyrfa yng Ngholeg y Brifysgol, Lerpwl, â'i bryd ar fynd yn feddyg, fe'i trawyd gan salwch difrifol. Mae ei rhieni, Margaret a Dewi, a'i chwaer Kate, yn gwyllo'n dyner drosti yn Ysbyty Brenhinol Lerpwl, ac yn ôl pob newydd sy'n treiddio oddi yno i Gaeathro, araf iawn yw'r gwellhâd. Ond serch hynny, mae gobeithion y pentrefwyr i gyd yn uchel, a'n meddyliau a'n

calonnau yn ddyddiol gyda'r teulu yn eu hargyfwng.

Nid dyna'r unig dristwch yng Nghaeathro y mis yma. Er brwydro'n galed am ddeufis yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Jennie Williams, Derwenfa. Cydymdeimlwn â'i hunig ferch Rhian a'i theulu, sy'n byw ym Methel, ac â'r teulu oll yng Nghaeathro. Mae'r pentref wedi colli dynes ddistaw ac annwyl iawn.

LLONGYFARCHIADAU i Yvonne Griffiths, Delfryn, ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Chwefror 7fed.

LLWYR WELLHÂD: I Mrs Margaret Lovell, Drws-y-Coed, sydd newydd ddoed adref o'r ysbyty ar ôl llawdriniaeth.

I Rhys Telor, mab bychan Einir ac Arwel Roberts, 3 Erw Wen a gadwyd dros nos yn yr ysbyty.

Ac i bawb o'r pentref sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar o'r fflw.

Llanberis (parhad)

LLONGYFARCHIADAU: Dymunwn longyfarch Mrs Hughes, Tan Pant ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar-ugain oed y mis diwethaf. Hefyd, Miss Gwyneth Williams, gynt o Woodleigh sydd yn awr yng Nghartref yr Henoed, Bron Graig, Llanberis, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, dydd Mawrth, Chwefror 17.

CROESO YN ÔL: Da gweld Mr a Mrs Williams, a Mr a Mrs Ernest Owen, Rhes Victoria yn ôl yn yr ardal ar ôl bod yn ymweld â'u teuluoedd dros y dŵr.

LLONGYFARCHIADAU: Dymunwn longyfarch Mr Huw R Jones, Bod Fair, Stryd Fawr am ennill tystysgrif am ddod yn drydydd trwy Gymru mewn cystadleuaeth am ysgrifennu dyddiadur ar 'Wythnos ym mywyd Pensiynwr'.

TRAWS GWLAD: Aeth 5 geneth o'r ardal i gynrychioli Ysgol Brynrefail i redeg ras traws gwlad ym Mangor yn ddiweddar, sef Michelle Willis, Annette Sellars, Lynda Prydderch, Julie Baylis a Linda Williams. Yr oedd dros 50 o ymgeiswyr. Llwyddodd Linda Prydderch a Julie i fynd trwodd i'r rownd nesaf. Llongyfarchiadau i'r 5 ohonoch am redeg mor dda.

DIOLCH: Dymuna Lliwen a Llinos, 1 Stryd Tomos ddiolch am yr holl anrhegion a gawsant ar ôl bod yn yr

ysbyty yn ddiweddar.

GONESTRWYDD: Mae tair neu bedair o siopau newydd wedi agor yn y pentref yn ddiweddar, a diolch amdanant, ac i un o'r rhain y bum yn siopa un bore Mercher. Tua saith o'r gloch yr un diwrnod daeth perchennog y siop i'm drws, a'r geiriau cyntaf a glywais ydoedd, "Rwyf yn dod yma i ymddiheuro i chi - mae'n ddrwg iawn gennyf am beth sydd wedi digwydd". Nid oedd gennyf syniad beth oedd wedi digwydd - ond wedi gwrandao ar berchennog y siop yn egluro - sylweddolais beth oedd gonestrwydd yn olygu i ddyn busnes. Dyma beth oedd wedi digwydd yn y siop y bore hwnnw. Talais am y nwyddau gyda phapur £50. Tybiodd y siopwr mai papur £30 ydoedd, a rhoddod newid o £30 i mi. Wrth gyfri'r arian y noson honno gwelodd fod ganddo bapur £50 - a'i fod wedi tybio mai £30 ydoedd. Daeth ar ei union o'r siop i dalu'r £30 yn ôl i mi gan ymddiheuro. Dyna i chi beth yw gonestrwydd - nid oedd yn rhaid i'r siopwr ddychwelyd yr arian. Ychydig iawn o unigolion fuasai yn dilyn ei batrwm. Diolch iddo ac mae ei siop yn siwr o lwyddo - ar ôl cael ei sefydlu ar onestrwydd.

Pob lwc i'r busnes, mae yn haeddu llwyddiant. Mae digon o sôn am anonstrwydd, ond pleser gennyf adael i'r cyhoedd wybod am y fath onestrwydd.

TAC SIS
AMBERLINE
BETHEL
UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER
Ffôn: (93) 670555

Bistro
Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)



CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands "Glanrafon" (872275)

CLWB POBOL Y CWM: Oherwydd prysurdeb y Nadolig a thywydd anffafriol gorfu i niohirio rhai cyfarfodydd, ond daeth yr aelodau at ei gilydd dydd lau, Ionawr 29 i chwarae Bingo. Mwynhawyd prawn difyr gyda Mrs E Price, Stryd Newydd yn galw. Rhoddwyd y gwobrau gan lawer o'r aelodau. Cyfeiriodd y Llywydd at amryw o'r aelodau oedd wedi bod yn wael ac wedi gwella. Rhoddwyd y te gan Mrs G Pritchard, Bryn Gwynedd a Mrs A Hughes, Bryn, a'r raffl gan Mrs H M Roberts, Bryn Gro.

Cyflwynodd a chroesawodd y llywydd Mr Llew Hughes, y wraig wadd sef Mrs Margaret Jones o Gricieth a fu yn byw am gyfnod yng Nghresor, ac yn naturiol wedi dod i gysylltiad a'r gŵr hynaws a llengar Bob Owen, ac ef oedd un o dri o gymeriadau gwreiddiol y soniai amdanynt yn ei sgwrs dydd lau, Chwefror 12. Mae ganddi ddawn arbennig i draethu a'i disgrifiadau o'r cymeriadau yn fyw. Y cymeriad cyntaf oedd hen filwr a ddaeth i fyw i'w hardal yn ei ddyddiau cynnar ac a gafodd swydd fel llythyrgludydd. Galwyd ef yn Jo Fawr oherwydd ei daldra a bu yn gymeriad hynod

garedig a chymwynasgar. Yr ail oedd gŵr a elwid yn Celt Edwards a ddaeth yn arlunydd o fri, a arferai arddangos ei waith yn Llundain. Yr oedd hefyd yn ysgolor gwych a bu yn gymorth mawr i Mrs Jones gyda'i harholiadau, a daeth a rhan o'i waith i'w arddangos i'r aelodau. Y trydydd cymeriad oedd, yn naturiol, Bob Owen Croesor, ac yn amlwg bu i Mrs Jones elwa ar y cyfoeth oedd ar gael yn ei gartref a'r rhyddid gafodd i chwilota yn y cyfrolau oedd yn pentyrru ymhob ystafell. Diolchodd y llywydd iddi am sgwrs ddiddorol ynghyd â hiwmor iach. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Mrs K Watkin, Dolwen a Mrs G Chick, Rhos y Ffin.

DIOLCH: Dymuna Christopher, Arosfa, Fron Gader, ddiolch o galon i'w deulu a'i ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

CLWB IEUENCTID: Enillwyd y raffl a drefnwyd gan aelodau'r Clwb at Gronfa Sganiwr y pentref oedd: 1. Bocs nwyddau: Manchester House; 2. Cyllyll, ffyrac a llwyau: Harries, 1 Groeslon; 3. Bocs siocled: Barry, Derlwyn, Craig y Don. Dymuna'r arweinydd a'r aelodau ddiolch i bawb

am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

CLWB MAMAU A MERCHED IFANC: Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan nos Fercher, Chwefror 4ydd a chafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Oscar Evans. Y gwestwagedd oedd Mrs Ann Jones a Mrs Margaret Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Williams, Goleufryn.

PROFEDIGAETH: Yn Ysbyty Gwynedd ar Ionawr 27ain yn 65 oed, bu farw Mr Tom Emlyn Davies, Caernarfon, mab y diweddar Mr a Mrs Rowland Davies, 24 Dôl Afon. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i ferch a'r teulu, ei frodyr a'i chwiorydd yn eu profedigaeth.

CRONFA SGANIWR: Yn ddiweddar cynhaliwyd gweithgaredd arbennig yng Nghwm-y-Glo, sef ymdrech i osod cylch o arian o amgylch yr Ysgol i godi arian i Gronfa Sganiwr y pentref. I'n cynorthwyo daeth y digrifwr Gari Williams atom am y prynhawn. Mewn llai nag awr llwyddwyd i osod DWY gadwyn o amgylch y buarth, a chasglwyd y swm o £171.00.

Trefnwyd raffl yn ystod y prynhawn ac enillwyd câs gobennydd gan Einir Gwyn, potel o win gan Dilys Jones a bocs o siocled gan Catherine Foulkes. Trefnwyd yr ymdrech hon gan Mrs Vera Price ar ran y Pwyllgor. Diolchwyd i bawb gan y Cadeirydd, Mr Gwyn Hefin Jones. Ein

gweithgaredd nesaf fydd Bingo rhywdro ym mis Chwefror.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i Bwyllgor y Ganolfan am y rhodd o £200.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Gwyn Hefin Jones a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli ei dad, Mr Gwynedd Peris Jones, Penrhosgarnedd (gynt o Lanberis).

APÊL Y SGANIWR: Ar ran Pwyllgor Apêl y Sganiwr, trefnwyd noson Bingo lwyddiannus iawn ar Chwefror 17eg, gan Mrs Margaret Williams, Bryn, a Mrs Sioned Jones, Isfryn. Casglwyd y swm o £188, sydd yn hwb sylweddol tuag at ein targed.

Enillwyd y raffl oedd - Lamp Ffwtbol: Iris Rowlands; Potel Felysion: Margaret Rowlands; Potel Martini: Dafydd Aeron; Potel Blue Nun: Catherine Foulkes; Gwydrau: Wavell Roberts, Llanrug; Siocled: Wood, Stable Cottage; Gwin: Ceri, Derlwyn, Craig y Don; Potiau Blodau: Idwal Williams, Elidir View; Ornament: Starkey, Stryd Newydd; Teisen: Christine Jordan, Llanrug; Poteli Storio: Veronica Morris, Ceunant; Bisgedi: Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd - trwy wasanaeth parod, trwy ofalu am wobrau, a thrwy eu presenoldeb ar y noson.

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Mae un hen air Cymraeg yn dweud - "Chwefror chwyth neidr oddi ar ei nyth" ac nid wyf yn siwr iawn beth yw'r gwir ystyr - a ydyw'n sôn am wyntoedd stormus ynteu a ydyw'n cyfeirio at ambell egwyl o hindda i ddenu'r neidr allan i fwynhau'r heulwen. Un peth a wyddom, a hynny yw mai'r 'mis bach' yw mis Chwefror, ond bod posibilrwydd amrywiaeth o dywydd.

YN GWELLA: Deallwn fod Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir wedi bod am driniaeth llwyddiannus ar ei ddwy lygad a bellach mae'n gwella'n foddhaol. Fe fu Mrs Nellie Falmay Pritchard 'Pen Dyffryn' am archwiliad meddygol yn yr ysbyty a hyderwn ei bod hithau ar y ffordd i wella.

CYDYMDEIMLO: Profedigaeth yn dilyn profedigaeth yw hi yn hanes rhai teuluoedd. Deallwn bod Mr Andrew Griffith, 'Tan Bwlch' wedi colli chwaer yng nghyfraith yn Rhiwlas - sef Mrs Elizabeth Daisy Griffith - priod ei frawd Mr Emlyn Griffith.

Pan gyrhaeddodd Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian adre'n ôl o'r Ganolfan lle roedd y Gymdeithas

Ddiwylliadol yn cynnal cyfarfod ar nos lau, Chwefror 12fed, fe ddaeth neges ffôn iddi hithau ei bod wedi colli ei brawd ym Mangor. Fe ddaeth y diwedd yn sydyn yn ei hanes ef - Mr Robert Rowlands - Bob Tai Ffynnon, Bangor.

Fe gydymdeimlwn yn ogystal â Mrs Medwen Griffith, Foel Cottage yn colli modryb, a hefyd ei mam Mrs Gwladys Evans, 'Swan yr Awel', Gallt y Foel yn colli chwaer yng nghyfraith ym marwolaeth Mrs Jennie Marion Jones, 51 Pentre Helen, Deiniolen. Mae ei chyfeillion yn Sardis yn cofio ei chysylltiad â'r capel.

Pan oeddwn bron gorffen ysgrifennu'r newyddion, fe'm hysbyswyd bod y cyfaill William Goronwy Morris 'Tŷ Oer', Clwt y Bont wedi colli'r dydd yn Ysbyty Gwynedd. Fe'i cofir yn arbennig am ei hiwmor iach a'i gysylltiad cynnar â Chapel Sardis.

LLONGYFARCHIADAU: Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mrs Maggie Evans, 'Dublin House' - hithau'n cyrraedd yr oedran tŷg o 89 ar Chwefror 10fed. Mae rhai ohonom yn cofio ei diweddar briod Mr Charles

Evans - yntau'n perthyn i deulu parchus yn yr ardal. Anfonodd hithau â ganlyn ar gyfer yr Eco.

DIOLCH: Dymuna Mrs Maggie Evans, 'Dublin House' ddiolch o galon i'w holl berthnasau a chyfeillion am eu careidgrwydd mawr tuag ati ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 89ain mlwydd oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Y GANOLFAN: Nos lau, Chwefror 12fed, yn y Ganolfan, fe ddarllenwyd atgofion dyddiau ysgol ei mam, Mrs Mary Ellen Jones 'Tŷ'n Fawnog', gan ei merch Miss Ellen Wyn Jones, a'r atgofion hyn yn ein dwyn yn ôl i gyfnod dechrau'r ganrif, ac yn rhoddi i ni ddarlun byw iawn o gyflwr addysg yn yr ardal yn y cyfnod cynnar hwnnw. Fe fu cryn newid er yr adeg honno ar y dull o gyflwyno addysg yn ein hysgolion, a thrist yw gweled rhai ysgolion wedi eu cau oherwydd prinder arian ac adnoddau, a'r cwtogi ar lyfrau ac athrawon. Fe ddaeth damwain anffodus i ran Mrs Jones nos Sadwrn, 14eg o Chwefror, gan iddi syrthio ac anafu ei hwyneb.

DIOLCH: Dymuna Kelvin a Sian Elen Fleming, Llithfaen, ddiolch i'r teulu a chyfeillion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeith eu mab bach. Diolch yn arbennig i'r Parch Idris Thomas, Trefor am bob cymorth ag am yr holl

alwadau ffôn i Llithfaen a Dinorwig.

Yr wythnos o'r blaen fe dderbyniais â ganlyn a all fod o ddiddordeb i rai, oddi wrth y Parch J Herbert Thomas, Y Rheithordy, Llannor, Pwllheli, dyddiedig 31.1.87:-

Annwyl gyfaill,

Yr hyn a barodd i mi ysgrifennu oedd darllen yn yr 'Eco' o dan Deiniolen rai misoedd yn ôl am ymweliad hogiau George Evans, 'Tan Giarat' (o'r Teleithiau Unedig) â'r ardal. Aeth fy meddwl yn ôl at George a hogiau Dinorwig y cyfnod hwnnw. 'Roedd gennym dîm pêl-droed yn yr ardal y pryd hynny, a byddem yn chwarae yng Nghae 'Pencraig' a'i gael gan Elias Griffith am hanner coron yr wythnos. 'Roedd yn gae pur dda y pryd hynny, ac 'rwyf yn sicr y gallesid fod wedi gwneud cae da ohono pe buasem wedi mynd ati o ddifrif i'w wella, a phe buaswn wedi aros yn yr ardal buaswn wedi mynd ar ôl teulu'r Faenol i geisio ei gael yn gae chwarae i'r ardal. Y tro diwethaf y bum heibio iddo 'roedd wedi dirywio'n arw - yn edrych yn bur wlyb, a llawer o frwyn yn tyfu hyd ddo. Ond i fynd yn ôl at y tîm. Streipiau coch a gwyn oedd i'r crysau a throwsusau gwyn.

Dyma enwau yr un-ar-ddeg:- Thomas Jones (Twm Chwarel Fawr) yn gapten; Thomas Jones (Tomi Rali); Ifan Jones 'Bryn Llys'; Myrddin Parry 'Tan y Bryn'; Arthur Jones, 'Blue Peris'; Charles a George Evans 'Tan y Giarat'; Joe Lewis 'Garreg Lydan'; Myrddin Jones, Tŷ Capel Sardis; John Jones (Sion Parc) a finnau Herbert Thomas, 'Llidiart y Clo'. 'Roedd George a Charles ei frawd yn chwaraewyr da, felly hefyd Joe Lewis ac Ifan Jones. Maent i gyd erbyn hyn wedi troi eu cefnau ar bob cae pêl-droed, ond maent wedi gadael atgofion melys ar eu holau - am oriau o chwarae hapus diniwed. Er gwaethaf caledi y chwarel 'roedd yna gymdeithas o ddynion a hogiau ardderchog o'i chwmpas - i mi y gymdeithas orau'n y byd.

Gobeithiaf y bydd hyn o iws.

Gyda chofion cynhesaf,
Yn bur iawn,
Herbert Thomas

Cefnogwch ein
Hysbysebwyd

EMYR JONES
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

SELWYN MORRIS
Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2841

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ni Bu John Penri Farw Yn 1593

Eleni ar achlysur mor arbennig â Gŵyl Ddewi Sant, nis gallaf roi ger eich bron well stori na'r ganlynol, fel y cafwyd hi gan y Parch E Tegla Davies. Mi ddois i ar draws y stori mewn rhifyn o Lleufer, Cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru, Golygydd David Thomas (taid Angharad Tomos), Cyf.xix. Gwanwyn 1963. Rhif 1.

Teitl yr hanes gan E Tegla Davies ydyw "Ystafell y To". Dyma eiriau Tegla Davies.

Rhyw ddeng mlynedd yn ôl, pregethwn yng Nghapel Cymraeg y ddinas yn Lloegr a ddinistriwyd mor llwyr yn ystod y rhyfel diwethaf, ac a atgyfodd mor fuan wedi hynny mewn modd mor wyrthiol, â'i heglwys gadeiriol newydd yn rhyfeddod y byd.

Arhoswn dros y Sul ar aelwyd y gweinidog ifanc a'i briod. Nos Sul, dywedodd wrthyf: "Chewch chi ddim mynd odd'ma yfory, 'ryden ni am fynd a chi i le gwerth ei weld ond na chewch chi ddim gwybod lle nes cyrraedd yno."

Cychwyn ar ôl cinio y Llun. Wedi gadael y ddinas mynd ar hyd lôn wlad am ryw bedair milltir ar ddeg. Troi ar y chwith ac ymhen rhyw filltir gweld ffermdy ar y chwith, tipyn o'r ffordd. Hen, hen, mor hen nes bod ei frics fel pe baent wedi toddi i'w gilydd. Drws mawr cnotiog a garej ar y dde iddo. Yn y garej yr oedd dyn ar ei liniau yn ffidlan â char. Mynd ato a gofyn iddo a fyddaiystal â gadael inni weld y tŷ. "Na chewch" meddai a chyfarthiad daeargi, codi ac ar ei sgruth i'r meysydd.

Curo wrth y drws. Dim ateb ond sŵn gwag drwy'r holl dŷ. Mynd i'r cefn a gweld drws arall. Curo arno. Ei agor gan wraig hawddgar, ganol oed cynnar, a phlentyn blwydd ar ei braich. Gofyn iddi a welai'n dda adael inni weld y tŷ.

"Â chroeso," meddai.

Neuadd fawr lydan, a phob panel iddi wedi ei banelu o'r gwaelod i'r top â derw du gloyw. Y distiau hefyd o dderw du gloyw.

Gofyn iddi a oedd hanes arbennig i'r tŷ.

"Dywedir i fynachod Ffrengig fod yn aros yma yn yr Oesoedd Canol," meddai.

"A oes ystafell fach, fach, yn nhop ucha'r tŷ?" meddwn.

"Oes," meddai'n synedig iawn.

"I weld honno y daethom os gwelwch yn dda."

Arweiniodd ni at risiau llydain, hwythau hefyd o dderw du gloyw. Dringo a dringo nes cyrraedd y tŷ. Drws bach ar ffin y tŷ. Wedi mynd i'r ystafell yr oeddym ein pedwar bron yn ei llenwi. Ffenestr fach sgwâr a muriau trwchus iawn.

Gan mai myfi oedd yr hynaf myfi oedd yr ymadroddwr.

"Cymry ydym ni," meddwn. "Bedwar can mlynedd yn ôl 'roedd ein gwlad yn dywyll iawn. Cymry uniaith oedd bron bawb, ond ni phregethid Cymraeg yn yr eglwys, dim ond Saesneg. Aeth gŵr ifanc o ganolbarth ein gwlad i'r coleg i Rydychen. Daeth yno i gysylltiad â gwŷr ifanc a ddaethai dan ddylanwad y diwygiad mawr a gynhyrfai Ewrop ar y pryd, a chrewyd dyhead dwfn ynddo am i'w wlad yntau gael pregethu'r Efengyl ynddi yn ei hiaith ei hun. Ysgrifennodd bamffledi i erfyn ar benaethiaid yr eglwys anfon pregethwyr i'w wlad a allai bregethu yn Gymraeg ond ni wrandawent. Yna chwerwodd y chyhoeddodd bamffledi yn eu condemnio'n enbyd. Bu'n rhaid iddo ffoi. 'Roedd ganddo ef a'i ffrindiau wasg argraffu y gellid ei chludo o le i le. Daethant i'r tŷ hwn a gwneud eu gwaith cudd yn yr ystafell hon, ac o'r ystafell hon yr âi'r pamffledi allan yn crefu am drefnu pregethu yn Gymraeg i'w bobl, a cheryddu'r awdurdodau'n chwerw am beidio.

O'r diwedd daliwyd ef a'i ddedfrydu i'w grogi, a gwnaed hynny ar Fai 29, 1593, yn ddeg-ar-hugain oed."

"Ei grogi am hynny?" meddai'r wraig mewn arswyd.

"Ie, ond ni fu farw. Heddiw y mae rhai o benaethiaid yr eglwys â'i herlidiodd ar flaen y rheng ym mwydr cadwraeth yr iaith, a'r bobl yn cael pregethu'r Efengyl iddynt yn Gymraeg ers canrifoedd, oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yn yr ystafell hon."

"Ddwetsoch chi mo'i enw," meddai.

"John Penri", meddwn, "ac y mae'r iaith heddiw'n fyw am iddo ef farw drosti."

Canu'n iach i'n gilydd yn rhadlon ac wrth iddi droi tua'r tŷ gwelwn ei gwefusau'n lapio am yr enw "John Penri".

Enw'r ffermdy oedd Walston Priory.

Yr Arwerthwr

A phan â i'w eitha hwyl

Fe wertha hwn ei forthwyl.

Llyfni Huws, Penygroes



CYMDEITHAS
WYDDONOL
GWYNEDD

Alwminiwm ac Iechyd

Hybu defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd technegol a gwyddonol oedd nod sefydlu Cymdeithas Wyddonol Gwynedd dros bymtheng mlynedd yn ôl - ond bellach gyda'r Gymraeg i'w chlywed yn fwy-fwy yn y meysydd hyn mae'r Gymdeithas yn pwysleisio ar gynnwys yn ogystal â chyfrwng ei chyfarfodydd, sydd yn aml yn troi'n fforwm i drafodaeth amserol. Y mis diwethaf cafwyd cip olwg ar agweddau iechyd un o ddiwydiannau mwyaf Gwynedd. Yn y gyntaf o gyfres o adroddiadau achlysurol fydd yn defnyddio cyfarfodydd Cymdeithas Wyddonol Gwynedd i adlewyrchu technoleg a gwyddoniaeth, mae Gwen Aaron yn adrodd ar ymweliad John Wyn Jones i'r Gymdeithas.

"Alwminiwm a Iechyd" oedd pwnc Mr Jones wrth annerch Cymdeithas Wyddonol Gwynedd nos Fawrth 13 o Ionawr. Cyflogir ef gan Gwmni Alwminiwm Môn i weithio ar safonau diogelwch y cwmni. Gyda'r newid yn

y Ddeddf Iechyd mewn diwydiant bydd rhaid cymryd camau diogelwch os ydynt yn "rhesymol yn ogystal ag ymarferol." Problem John Wyn yw barnu beth sy'n rhesymol o safbwynt y gweithiwr, cyflogwr ac arolygwr.

Daw perygl i iechyd gweithiwr o sawl cyfeiriad, ac er y gall fod yn fychan iawn rhaid ei fesur i sicrhau ei fod yn is na'r safonau manwl a osodir gan y llywodraeth. Er enghraifft: i 85 y cant o boblogaeth y mae sŵn o 90db am wyth awr o'r dydd yn ddiogel. Y broblem yw ynysu'r 15 y cant a fedrai gael eu niweidio gan y lefel hyn o sŵn a'u cadw o fewn rhan tawelach o'r ffatri. Cynghorir pawb sy'n gweithio mewn llwch i wisgo mygydau, a chynghorir gweithiwr sy'n gorod trafod pwysau mawr sut i arbed eu cyrff.

Prif broblem y gwaith yw'r fflworidiau a ryddheir yn y gwaith gan y gallant effeithio ar ddannedd ac esgyrn os caiff y corff ormodedd. Felly gweithredir system fanwl o brofi dŵr y gweithwyr. Mae'r cwmni yn ffarmio'r tir sy'n union o amgylch y simdde fawr er mwyn dangos nad yw'r fflworid yn unrhyw rwysr i amaethyddiaeth.

Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod yn Narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth yng Ngholeg y Brifysgol Bangor am 7.30, nos Fawrth cyntaf y mis yn ystod y tymor; darlith gan Mr Trefor Owen, Amgueddfa Sain Ffagan (Mawrth 3ydd); a "Lleisiau o'r Gofod" gan Dr Dyfrig Jones (Ebrill 3ydd). Am fwy o fanylion cysylltwch â Mr Doug Thomas, Llanfairpwll 714829.



Eisteddfod Genedlaethol Cymru Dyffryn Conwy A'r Cyffiniau

Mae Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau 1989 bellach wedi dewis logo i'r ŵyl, a hwnnw wedi'i gynllunio gan artist o'r ardal. Merch o Benmachno yw Anne Lloyd Morris - bu'n dilyn cwrs celf ym Mholitechnig Lerpwl ac mae yn awr yn bennaeth yr Adran Dylunio yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst. Mae wedi cynllunio cloriau llyfrau a recordiau, mae'n gartwnydd o fri ac wedi arddangos gwaith ffotograffiaeth yn Lerpwl a Llundain.

Cafodd y syniad i'w logo drwy gyfuno eryr Tywysogion Gwynedd â ffurf y Bont Fawr, Llanrwst. Roedd cysylltiad cryf rhwng nifer o Dywysogion Gwynedd ac ardal yr Eisteddfod. Adeiladodd Maelgwn

Gwynedd gastell yn Neganwy ac fe'i claddwyd yn Eglwys Llanrhos; adeiladodd Owain Gwynedd gastell yn Nolwyddelan ac yno y ganwyd Llywelyn Fawr. Roedd gan Llywelyn Fawr gysylltiad agos ag Aberconwy, Trefriw a Llanrhydydd hefyd, ac mae ei arch garreg i'w gweld erbyn hyn yn Eglwys Llanrwst.

Yr eryr oedd ar arfbais y tywysogion hyn, ac fe'i gwelir hefyd ar arfbais teulu'r Wynniaid oedd â phlasdai yng Ngwydir a Chonwy. Mae'r cynllun wedi llwyddo i gynnwys nod cyfrin yr Orsedd yng nghynffon yr eryr yn ogystal.

Mae ffurf pont enwog Llanrwst i'w gweld yn eglur yn y logo, yn ogystal â lli'r afon oddi tani'n cynrychioli'r dyffryn a'r cyffiniau. Codwyd y bont hon ym 1636 gan gysylltu yr hen sir Gaernarfon â'r hen sir Ddinbych - yn yr un modd mae'r Ŵyl Genedlaethol yn pontio'r holl gelfyddydau yng Nghymru ac yn codi pont rhwng y Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr.

Mae Pwyllgor Llywio Eisteddfod 1989 newydd gwblhau blwyddyn o waith erbyn hyn ac wedi sefydlu 32 o bwyllgorau apêl lleol i gyrraedd at darged lleol o £110,000.

PLAID CYMRU

Cangen Llanrug a'r Cylch
Estynnir gwahoddiad i aelodau
Canghennau Plaid Cymru Bro
Eco'r Wyddfa i ddod i gystadlu
mewn

CWIS GWAHANOL

Nos Fercher, Mawrth 11

am 7.30 o'r gloch

yn Ysgol Gynradd, Llanrug.

10c am set o gwestiynau (8 set ar werth)

GWOBRAU!! GWOBRAU!!

A wnewch gysylltu ag un o'r
ysgrifenyddion i ddweud faint
ohonoch sydd am ddod, os
gwelwch yn dda.
Waunfawr 200 neu
Caernarfon 5668.

DERWYN HUGHES

Treflys
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
870945

Am
nenfydau
a waliau
siapus

Antex

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd
ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

BOWEN, Euros
Goleuni'r Eithin
Gwasg Gee £3.75
Cyfrol o gerddi

DAVIES, Gareth Alban
Dyddiadur Awstralia
Tŷ John Penry £5.00
Dyddiadur a gadwai'r awdur yn ystod y cyfnod a dreuliodd yn Awstralia ym 1983.

ELWYN, John
Yn Fy Ffordd fy Hun,
Cyfrol 2
Gwasg Carreg Gwalch £3.25
Ail ran 'Hunangofiant Dyn Byrbwyll'

ELWYN-EDWARDS, Dilys
Hwiangerddi
Gwasg Pantycelyn £3.00
Wyth o hwiangerddi a drefnwyd yn arbennig fel cadwyn o ganeuon.

EVANS, Gwynfor
Seiri Cenedl
Gwasg Gomer £9.50
Portreadau byrion o chwe deg pump o'r gwŷr a'r gwagedd pwysicaf yn hanes Cymru

EVANS, R. Alun
Rhwng Gŵyl a Gwaith Cyfrol 4
Gwasg Gee £3.50
Sgyrsiau radio gan nifer o gyfranwyr

HUGHES, Mair Wynn
Un Cam ar y Tro
Gwasg Gomer (CBAC) £2.50
Nofel

IFANS, Rhiannon
Mabinogi'r Plant
Y Lolfa £3.95
Argraffiad newydd o chwedlau'r Mabinogi i blant

JONES, R E
O Lan i Lan
Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd 75c
Darlith Dyffryn Conwy, 1985, lle sonia R E Jones, am flynyddoedd ei febyd yn Llangernyw a Llanrwst.

LLANBERIS

Gohebydd: **Iola Sellers, 13 Dôl Elidir**

DIOLCH: Dymuna Colin a Valerie James Jones, Glan-y-Don, Stryd Fawr, Llanberis, ddiolch o galon i bawb am y lluo cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Llifon James.

DIOLCH: Dymuna Mrs Hannah Jones, Tawelfan, ddiolch yn fawr iawn i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty a hefyd gartref. Llauer o ddiolch hefyd i feddygon a staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd, y meddyg teulu a'r nyrsus lleol.

CWMNI DRAMA LLANBERIS: Bu'r Cwmni yn ymweld â Chapel Salem, Caernarfon ar nos Fercher, Ionawr 27ain, i berfformio dwy ddrama fer, sef 'John Huws Drws Nesa' a 'Gwyn y Gwêl'. Mwynhawyd y noson gan bawb. Gobeithia'r cwmni berfformio yn Llanrug yn y dyfodol agos ac ar hyd a lled Gogledd Cymru yn y misoedd nesaf.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

JONES, Mary Vaughan
Y Dynion Bach Od
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion £2.95
Llyfr stori-a-llun i'r plant lleiaf.

ROBERTS, Eigra Lewis
Seren Wib
Gwasg Gomer £2.95
Casgliad o sgyrsiau radio
THOMAS, Alwyn
Teulu'r Cwprdd Cornel
Gwasg Gomer £3.95
Argraffiad newydd o'r hen ffefryn

TOMOS, Angharad
Strempa
Y Lolfa £1.25
Rhif 8 yng Nghyffres Rwdlan

WILLIAMS, Islwyn
Blodau'r Weirglodd
Gwasg Dwyfor £3.50
Y Trydydd llyfr yng Nghyffres y Blodau

WILLIAMS, Mari
Y Tlws
Gwasg Gomer £2.25
Nofel i bobl ifanc

PUW, Sioned
Cymer dy Serch yn Ôl
Argraffiad print bras o'r nofel a gyhoeddwyd gyntaf beth amser yn ôl.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yn y Ganolfan. Yn absenoldeb Mrs Hannah Jones, llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Betty Humphries, Nant Peris. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Hannah Jones a oedd wedi bod yn yr ysbyty. Hefyd i Mrs Rhona Thomas a Mrs Arvon Evans sydd yn cwyno gartref.

Cydyndeimlwyd â Mrs Nettie Williams, oedd wedi cael profedigaeth o golli ei hannwyl fam, oeddhefyd yn aelod ffyddlon o'r sefydliad am flynyddoedd.

Fe fwynhaodd y tîm dartiau eu hunain pan aethant i chwarae gêm yn erbyn Sefydliad Llandudno.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Robert Thomas a chafwyd sgwsr ddiddorol a sleidiau am Hwngari ganddo. Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd gan Mrs Mair Jones a Mrs A B Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs Lizzie Jones, Mrs Mary Jackson a Mrs Katie Griffiths. Enillwyd y raffi gan Mrs Helen Morris.

YN YR YSBYTY: Dymunwn pob dymuniad da yn ei hafiechyd hir i Mrs Eirlys Jones, Ger y Llyn, 49 Maes Padarn, Llanberis sydd ar hyn o bryd yn Uned (Gofal Arbennig) Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

BEDYDD: Bedyddiwyd Mark, mab bach Malcolm ac Yvonne Pitts yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon ar Ionawr 25ain. Gweinyddwyd gan y Rheithor, Barry Thomas.

BEDYDD: Bedyddiwyd Iwan Lloyd yn ei gartref yn Nhregarth ar Chwefror 1af, 1987. Mae Iwan yn fab i Melvin a Menai Pitts. Gweinyddwyd gan y Parchedig Gwynfor Williams, gweinidog Capel Jerusalem, Llanberis.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol:
Robin Wyn, mab bach Norman a Mair Jones, 8 Stryd Yankee;
Ruth, merch fach Lorraine a George Williams, Stryd Ceunant;
Lliwen a Llinos Huws, 1 Stryd Tomos;
Gwyn Williams, Rhos Cambrian;
Bill Williams, Stryd Fawr;
Pat Turner, Glan Peris, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl;
Mr David Jones, 1 Olgra Terrace, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn Lerpwl ac yn Ysbyty Gwynedd;
Mr Huw Jones, Dol Eilian;
Mrs Margaret Roberts, Maes Padarn;
Y Parchedig Alun Hawkins, sydd wedi bod am driniaeth law feddygol yn ddiweddar;
Meira Willis, Maes Padarn;
Mrs Annie Jones, Dol Eilian;
Mrs Hannah Jones, Tawelfan;
Mrs Norman Jones, Stryd Capel Coch;
Mrs Edna Jones, Maes Padarn;
Mrs Arvon Evans, Stryd Fawr;

Mrs Eirlys Jones, Maes Padarn;
Mr Dafydd Price, Cabs Padarn.

CYDYMDEIMLWN â Nettie Williams, Stryd Tomos a'r teulu i gyd ar golli ei mam, sef Mrs Annie Owen, gynt o Stryd Newton.

CYDYMDEIMLWN hefyd â Mr Hugh Griffiths, Llain Wen a'r teulu ar golli ei frawd yng nghyfraith.

PRIODAS RUDDER: Ein dymuniadau gorau i Megan a Griffith Owen, 59 Maes Padarn ar ddatlu eu Priodas Ruddem ar Ionawr 31.

DIOLCH: Dymuna Megan a Griffith Owen, 59 Maes Padarn, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Ruddem.

LLONGYFARCHIADAU: Pob dymuniad da i ti Annwen, 1 Blaen Ddôl, Llanberis, ar dy ben-blwydd yn un ar hugain oed ar ddydd lau, Chwefror 26, oddi wrth Maldwyn, Deion a Sonia bach, hefyd Carys, Tec, Arwel ac Einir, 1 Stryd Yankee.

GWELLHAD: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Buddug Wakeham, Stryd Newton, a hefyd Mrs Ceilia Thomas, "Maxells".

CLWB YR HENOED: Dechrau'r mis cyfarfu pwyllgor Clwb yr Henoed yn Festri Nant Padarn. Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs Hannah Jones, Tawelfan sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol, ac hefyd oddi wrth Mrs Jennie May Jones, Maes Padarn, hithau wedi ei chaethiwo i'w chartref. Dymunwyd adferiad buan iddynt.

Diolchodd y llywydd, Mrs M B Hughes, i Mrs Marian Roberts, Bryn Mel am ei chyfraniad gyda'r 'Prydau Parod'. Bu yn dosbarthu y pwys menyn i'r pensiynwyr oedd yn derbyn y Prydau Parod, a deallir fod ychwaneg i ddod i'r ardal o Gaernarfon dan nawdd y DHSS, i'w ddosbarthu i'r Henoed. Wedi i'r menyn gyrraedd, bydd Mrs Roberts a'i phriod yn ei ddosbarthu i'r pensiynwyr hynny fydd wedi eu henwi gan y Swyddfa yng Nghaernarfon.

Trefnwyd i gynnal y Cinio Dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Fictoria, dydd lau, Mawrth 5ed.

Estynnwyd croeso i Mrs Mair Lloyd Roberts, Warden Street, fel aelod newydd o'r pwyllgor. Mae Mrs Roberts yn garedig iawn wrth y clwb, ac yn help mawr i'r pensiynwyr. Diolchwyd i Mrs Jean Roberts am ei chyfraniad hithau i'r pwyllgor ers rhai blynnyddoedd.

Derbyniwyd amryw o lythyrau gan y pensiynwyr yn diolch am y rhodd ariannol a dderbyniwyd ganddynt adeg y Nadolig.

Bydd y 'Te Bach' yn cael ei ddarparu yn Festri Nant Padarn o hyn ymlaen - bob yn ail prawn Gwener.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:

LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhindir Mwyn (Waunfawr)

APÊL Y SGANYDD: Cynhaliwyd "Ocsiwn Tŷ" hynod o lwyddiannus yn Y Ganolfan, nos Wener, 30 Ionawr, a gwnaethpwyd elw o £250 tuag at yr Apêl. Enillwyd y raffl gan Mrs Beryl Jones, Dol-y-Coed, Mrs Menna Griffith, 6 Tŷ Hen, a Mrs Sprott, Gwenlllys. Hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at yr ocsiwn, raffl, stondinau, ac i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth i'r noson, a diolch arbennig i Mr Gwilym Williams am fod yn 'Ocsiwniar' mor dda.

DIOLCH: Dymuna Eric, Rhian a Ffyr, 22 Tref Eilian, ddiolch i'r teulu, i'w cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli tad a thaid annwyl. Diolch yn fawr iawn.

YR URDD: Dydd Sadwrn, Ionawr 31 bu pump o aelodau'r Urdd yn cynrychioli'r Gangen trwy nofio yng Nghystadleuthau Sir yr Urdd ym Mangor. Daeth Elain Medi, 'Lloches' 9 oed, yn ail ar y Nofio Rhydd ac yn 4ydd yn y gystadleuaeth Nofio Cefn allan o dros ugain o ymgeiswyr. Daeth Kirsty Leanne Jones, 'Cynefin', sydd yn 7 oed, yn 4ydd ar y Nofio Broga a'r Nofio Rhydd o dan 10 oed, allan o dros ugain o ymgeiswyr. Pedwerydd hefyd oedd Kailey Marie

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r Sefydliad yn Festri Capel Croesywaen, nos Iau, Chwefror 5ed, gyda Mrs Pat Parry y llywydd yn y gadair. Diolchwyd i'r ysgrifenyddes am drefnu'r Parti Nadolig a gynhaliwyd yng Nghwesty Tŷ Golchi, Bangor ym mis Ionawr.

Cymerwyd enwau'r aelodau sydd am fynd i'r Cyfarfod Blynyddol yng Nghaernarfon, Chwefror 7fed. Mrs C A Jones, fydd yn cynrychioli Sefydliad y Waunfawr.

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni dwy o ferched o'r Sefydliad. Mrs Mary Davies yn mynd a ni i Rwsia a Mrs Elen Jones yn dweud hanes ei phlentynod ym Mhontrug, a hanes Capel Nazareth Pontrug. Diolchwyd iddynt gan Mrs Pat Parry. Enillwyd y raffl a roddwyd gan Mrs Pat Parry gan Mrs Mary Davies.

Jones, 'Cynefin', sydd yn 9 oed, yn y gystadleuaeth Nofio Broga o dan 12 oed, a 5ed ar y Nofio Cefn allan o dros 30 o ymgeiswyr.

Yn y gystadleuaeth Cyfnewid Rhydd daeth Elain, Gwenno, Kirsty a Heddu Gwynedd, 'Nant' yn ail a hefyd yn ail yn y gystadleuaeth Cyfnewid Amrywiol o dan 10 oed. Llongyfarchiadau iddynt a diolch i Mrs Gwenno Williams o Gaernarfon, am eu hyfforddi.



Buddugwyr y Gân Actol dan 15 oed i Adrannau Pentref.

LLONGYFARCHIADAU: I Meira Turner, Collfryn, ar ennill y wobyr gyntaf a Chwpan yn y Brif Adroddiad yn Eisteddfod Garndolbenmaen, ar Ionawr 31: ac i Alun ag Wmffra ar ddod yn gyntaf ar y ddeuawd, ac Alun yn 3ydd ar y Gân Werin yn yr un Eisteddfod.

Chwefror 7, yn Eisteddfod Trawsfynydd, daeth Meira yn ail ar y Brif Adroddiad ac Alun ag Wmffra yn 3ydd ar y ddeuawd.

Yn Eisteddfod Abergynolwyn ar Chwefror 14, daeth Meira yn 3ydd ar y Brif Adroddiad ac Alun ag Wmffra yn gyntaf ar y ddeuawd.

ADREF O'R YSBYTY: rCroeso gartref i Mrs Clayton, Bro Waun; Mrs Rhian Ellis, Glyn Awel; Awen Parry, 1 Bryn Golau; Bethan Wyn, Y Frenni; Mrs Jones, Rhos Alun; Mrs M Beech, Bronallt, a Mr Robat Jones, Cartrefle, Stad Tŷ Hen, ar ôl eu triniaeth yn yr ysbty yn ddiweddar. Da yw clywed eu bod yn gwella.

CYDYMDEIMLWN YN FAWR 7a Mrs Nellie Williams, Rhos Cefn Du, yn ei phrofedigaeth lem o golli priod mewn damwain erchyll yn ddiweddar;

Hefyd â theulu y diweddar Mr Dafydd Griffith, Tref Eilian gynt, a fu farw yng Nghartref Maesincla yn 89 mlwydd oed.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Ionawr 22 cafwyd noson ddiddorol dros ben yng nghwmni Mr Norman Williams, Llidiart Wen yn rhoi hanes ei waith ym myd y radio a'r teledu. Croesawyd ef gan y llywydd Glenys Williams. Hefyd croesawodd Mrs Phyllis Jones yn ôl ar ôl bod yn yr ysbty. Llongyfarchodd Heulwen Huws a Meg Dafydd ar enedigaeth merch bob un, a Mrs Doris Roberts ar ddathlu ei phriodas ruddem. Anfonwyd cofion at Mrs Pritchard;



CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y clwb 300 am fis Ionawr:

1. £40: T C Williams, 17 Tref Eilian; 2. £25: Dr Huw Roberts, Y Sygeri; 3. £10: Iolo Huws Roberts, Bodrida.

DIOLCH: Dymuna tenantiaid tai cyngor y Waunfawr, yn enwedig oedolion Stad Tref Eilian, ddangos eu gwerthfawrogiad, trwy ddiolch yn fawr i'r Cynghorydd Dic Jones am bopeth a wnaeth inni yn ystod y rhew a'r eira mawr a'r 'bursts' a gawsbm ar ddechrau'r flwyddyn hon. 'Roedd yn barod i wrando cwynion pob tŷ cyngor yn y Waun, hefyd pawb sydd yn Antur Waunfawr am helpu i gario dŵr a rhannu coed tân yr un amser.

Diolch yn fawr iawn Mr Jones a phawb o'r Antur.

CLWB GWYRFAI: Cyfarfu'r aelodau yn ystod mis Ionawr er gwaethaf yr oerni ddydd Iau, Ionawr 22. Mr Evan Hughes oedd yn trefnu'n rhaglen. Cymerwyd rhan gan Mrs L Jones, yr ysgrifennydd, Mrs Ellen Jones a Mr Evan Hughes.

Anfonwyd cofion at Mrs M A Owen yn Ysbyty Gwynedd, Mrs Pritchard yn Gwynfa, Bontnewydd, a hefyd dymuno gwellhad buan i Mrs Williams, Dwyfor. Croesawyd aelod newydd, Mr Harry Griffiths sydd wedi dod i'r ardal i fyw a dymunwn yn dda iddo.

Croesawyd Mrs Gill Brown a rhai o aelodau Antur Waunfawr oedd yn gofalu am y te. Diolchodd y Rheithor i bawb am eu cyfraniad ac i Mrs Bracegirdle am ei rhodd arbennig. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwen Jones a roddwyd gan Mrs Mwynwen Jones.

Dydd Iau, Chwefror 5ed, gyda Mrs Jones, Eilian Terrace gynt, yn llywyddu daeth nifer dda ynghyd i wrando ar Mr Eurwyn Jones, Llanberis yn son am wledydd y dwyrain y bu'n ymweld â hwy ar ei wyliau. Diolchwyd iddo am ddod ar fyr rybudd, gan fod ein siaradwr gwadd yn methu bod yn bresennol, gan Mrs Nessfield. Rhoddwyd yn anrheg arbennig gan Mrs Southworth a Mrs Pritchard a'i henillodd. Cydymdeimlwyd â Miss Catherine Hughes, sydd yn gwasanaethu yn y clwb, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 19, pryd bydd Mrs Mary Vaughan Jones yn annerch y cyfarfod.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mrs M A Owen, Tref Eilian, a Mr R L Parry, Rhos Eilian, sydd yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon, a dymunwn adferiad buan iddynt.

Mrs M Owen, Tref Eilian ac Olwen Williams, Llidiart Wen sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd. Gwesteion y te oedd Mrs Katie Jones a Mrs Margaret Owen. Enillwyd y raffl gan Mrs Mair Williams rhoddedig gan K Jones. Diolchwyd am y noson gan Gillian Wyn. Dathlu Gŵyl Dewi fydd y gangen ar Chwefror 26.

PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Ionawr:

1. Iolo Huws Roberts; 2. Dic Jones; 3. Marion Iwan.

YR YSGOL FEITHRIN: Cafwyd noson hwyliog pan ddaeth Cwmni Drama'r Llechen Las i berfformio'i Pantomeim "Po-Ha!" yn y Ganolfan, nos Lun, Chwefror 16. Daeth dros 100 o bobl i weld y sioe ac 'roedd pawb wrth eu bodd. Diolch yn fawr i'r Cwmni talentog yma. Dim yn unig maent yn darparu adloniant i bobl y fro ond hefyd maent yn rhoi cyfle i lawer o blant a phobl ifanc feithrin doniau a dysgu sgiliau theatr. Diolch hefyd i bawb a fu'n helpu i drefnu'r noson.

YN EISIAU ATHRAWES

**Ysgol Feithrin
Waunfawr**

**Am fanylion
pellach, cysyllter â
Mrs Sylvia Jones,
Waunfawr 592**

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

**PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION**



**Bara Ffres
Teisennau**

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)

CLWB BRO BETHEL: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb yn Ffestri Bethel (A) prynhawn Mawrth, Chwefror 3ydd, dan lywyddiaeth y Parch W.R. Williams.

Cydymdeimlwyd â Mr Evans, Tryfan a Mrs Myra Thomas, Tyddyn Difyr, yn eu profedigaethau. Cyflwynodd y llywydd y gŵr gwadd, y Parch Gwynfor Williams, Llanberis, a roddodd sgwrs ddiddorol iawn ar waith y Gweithwyr Ambiwlans. Rhoddwyd y te gan Mrs Stanley Griffith, Mrs M G Williams a Mrs Gwyneth Williams. Diolchwyd i bawb gan Mr Fellows, Stâd y Ddôl.

Dewiswyd yr un swyddogion am 1987. Llywydd: y Parch W R Williams; Is-lywydd: M G Williams; Trysorydd: Mrs Mary Griffith; Ysgrifennydd: Mrs Bessie Ellis; Is-ysgrifennydd: Mrs Mary Hughes.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr ysgol am 1.30 Mawrth 3ydd. Hyn erbyn hyn yn flynyddol. Penderfynwyd cyfranu £20.00 tuag at Apêl y Sganiwr.

LLONGYFARCHIADAU i Julie a Trefor Foulkes ar enedigaeth merch fach yn ystod y mis.

CYDYMDEIMLAD: Ddydd Marth, Chwefror 17 yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, bu farw Mr Hugh Jones, Cremllyn. Estynnwn pob cydymdeimlad â Mrs Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB FFERMWYR IEUANC, CAERNARFON: Yn ystod mis Ionawr, cynhaliwyd nifer o wahanol gystadleuthau.

Ionawr 24ain yng Nghanolfan Frondeg, Pwllheli, cynhaliwyd Diwrnod Gweithgareddau Merched. Daeth Ellen Hughes yn drydydd am Gywaith Ceginio - 4 eitem ar gyfer parti Santes Dwynwen. Cystadlodd Nia Jones ar goginio Pizza a Myfanwy Jones ar wau siwmpwr.

Nos Iau, 22ain Ionawr, cynhaliwyd noson o gystadleuthau chwaraeon yng Nghanolfan Arfon. Gymerodd y canlynol ran - Tennis Bwrdd: Gwen Jones ac Elwyn Parry. Badminton: Carys Owen ac Andrew Jones.

YR URDD: Nos Wener, Chwefror 27 am 6.30 cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd. Cyflwynir eitemau amrywiol a bydd aelodau a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod yn cymryd rhan. Estynnwn groeso i'r aelodau, rhieni a chyfeillion.

PLAID CYMRU: Nos Fawrth, Chwefror 18 cynhaliwyd noson lwyddiannus o Chwarae Bingo yn y Neuadd. Roedd y noson wedi ei threfnu gan Bwyllgor Cangen leol Plaid Cymru.

Mae'r pwyllgor wedi trefnu nifer o

weithgareddau amrywiol o hyn i'r haf, a gwahoddir aelodau hen a newydd a chyfeillion i'r cyfarfodydd.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Chwefror 11fed, y gŵr gwadd oedd Mr Dewi Tomos, Rhosgadfan. Dangosodd sleidiau o'i fro enedigol, sef Dyffryn Nantlle. Diolchwyd iddo gan Mrs Alys Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs Mair Read a Mrs Mair Jones.

Cydymdeimlwyd â Mrs Ceinwen Williams, Cefn Gwyn yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Mrs M G Williams ar ei llwyddiant mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gyngor Henoed Cymru, a'i llwyddiant yn Eisteddfod Garndolbenmaen yn ddiweddar.

Cyflwynwyd siec o £116 i Mrs Sian Hughes, Cae Rhos, i'w drosglwyddo i waith ymchwil Clefyd y Galon yng Nghaerdydd. Diolch i bawb am wneud y noson garolau yn gymaint o lwyddiant.

Cofiwch am Ffug Eisteddfod Merched y Wawr yn Ysgol Brynrefail, Mawrth 6ed. Mae aelodau'r gangen wrthi'n brysur yn ymarfer.

Nos Fercher, Mawrth 11fed, cynhelir Swper Gŵyl Ddewi'r gangen yn yr ysgol am 7.30. Cost y swper, ac adloniant gan Ffermwyr Ieuanc Dyffryn Nantlle, fydd £1 a 20c am raffl.

CYMDEITHAS RIENI AC ATHRAWON YSGOL BETHEL: Nos Iau, Chwefror 19 sefydlwyd y Gymdeithas uchod yn yr ysgol.

Etholwyd y canlynol yn swyddogion ac aelodau'r pwyllgor: Cadeirydd: Mr Islwyn Jones; Is-gadeirydd: Mr Sion Williams, Y Ddôl; Ysgrifenyddes: Mrs Sian Robinson; Trysorydd: Mr Richard Parry, Rhos Lan; Aelodau'r pwyllgor: Holl athrawon yr ysgol; Mrs Lynwen Morris; Mrs Ellen Ellis; Mrs Eluned Davies; Mrs Salesbury; Mrs J Jones; Mrs Anne Elis.

NEUADD GOFFA BETHEL

Yn eisiau: Gofalwr
Cyflog i'w drafod

Ceisiadau i'r ysgrifennydd,
Glan y Gors, Bethel.

HEN BENILLION

Os gwnei gerdded sarn yr afon
Paid â chamu cerrig llyfnion.
Cais di gyrraedd y rhai garwaf;
'Rhain a'th ddeil rhag codwm siwraf.

CYMDEITHAS GELFYDDYDAU GOGLEDD CYMRU A

CHYSTADLEUAETH CERDD DAFOD

CEFNDIR:

Mae'r gymdeithas ar hyn o bryd yn rhoi llun a siâp i'w rhaglen o weithgarwch yn Eisteddfod Porthmadog a chan i gynlluniau "Crefftwyr wrth eu Gwaith" y Gymdeithas fod yn gymaint llwyddiant yn Eisteddfodau'r gorffennol, bwriedir dilyn y patrwm a'i ddatblygu ym Mhorthmadog. Un elfen o'r cynllun yw'r gystadleuaeth a'r comisiwn a ddisgrifir yn y daflen hon.

Y GYSTADLEUAETH A'R COMISIWN:

Gwahoddir artistiaid a chrefftwyr i lunio gwaith a fydd yn cyfleu natur ac athrylith CERDD DAFOD. Gall y gwaith fod mewn unrhyw gyfrwng gweledol, e.e. model tri dimensiwn, brasluniau, fideo, ffilm wedi ei bywiogi.

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno cynllun yn unig o'u gwaith a bydd panel arbennig o Bwyllgor Celf a Chrefft y Gymdeithas yn dewis hyd at chwe ymgais i'w harddangos yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog.

Rhoddir comisiwn i'r ymgeisydd gorau i gyflawni'r gwaith mewn uned arbennig ar y maes yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

NODIADAU A RHEOLAU AC AMODAU:

1. Rhaid i bob ymgais gynnwys enw a chyfeiriad yr ymgeisydd a llythyr cais yn disgrifio profiad a gweithgarwch proffesiynol presennol.
2. Gall ymgeiswyr hefyd anfon sleidiau a-neu ffotograffau o waith blaenorol i gryfhau'r cais.
3. Dylai'r cais gynnwys amcangyfrif o gostau defnyddiau i gwblhau'r gwaith.
4. Gobeithir cynnig comisiwn o £500 a chostau llely a chynhaliath yn ystod wythnos yr Eisteddfod i'r ymgeisydd gorau.
5. Gellir cynnig £75 yr un i hyd at chwe ymgeisydd i ddatblygu eu syniad mewn cynllun, macet neu fodel, addas i'w arddangos yn Eisteddfod Porthmadog.
6. Y dyddiad olaf i dderbyn ceisiadau yw: 15 Mai, 1987.
7. Dylid anfon ceisiadau at: Y Cyfarwyddwr, Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, 10 Wellfield House, Bangor. Gwynedd. Ffôn: Bangor 353248
8. Mae'r Gymdeithas wedi paratoi rhestr ddarllen ddethol ar Gerdd Dafod ac mae copïau ar gael o swyddfa'r Gymdeithas ym Mangor.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff Roberts, Cerrigydrudion.

CYDYMDEIMLWN fel ardal hefo Mrs Lizzie Closs Roberts a Mr Gruffudd Closs Williams, 2 Tan y Bryn ar golli eu chwaer, Mrs Margaret Edwards, oedd yn byw yn Lerpwl.

Hefyd cydymdeimlwn hefo Mrs Eluned Owen, 8 Nant Ffynnon ar golli ei chwaer, Mrs Bessie Roberts o Wrecsam.

CROESO ADREF o Ysbyty Gwynedd i Mr Owen Humphreys, Gwastadnant, gobeithio eich bod yn teimlo yn well erbyn hyn.

LLONGYFARCHIADAU i Gwen Griffiths, 6 Rhes Glanrafon, ar lwyddo yn ei Arholiad Gradd 3 "Cecchetti Ballet", dan nawdd yr "Imperial Society of Teachers Dancing" a gafodd ei gynnal yng Ngholeg y Santes Fair, Bangor. Dymunwn bob llwyddiant i Gwen yn ei gradd nesaf yn y Cwrs dawnsio sydd yn cael ei gynnal yn Theatr Gwynedd. Mae Gwen yn un o ddisgyblion ysgol ddawnsio Judy Hughes, Bangor. Da iawn Gwen, dal ati.

TAN-Y-COED


Gohebydd: Miss Megan Humphreys,

MARWOLAETH: Ionawr 21ain, yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Emyr Jones, 17 Hafan Elan, Llanrug, gynt o 5 Maes-y-Gerddi, Tan-y-Coed, priod y diweddar Maggie Jones a thad annwyl Carol, tad yng nghyfraith Gwyn a thaid caredig Caren.

Bu'r angladd ddydd Sadwrn, Ionawr 24ain. Y gwasanaeth yng Nghapel Tan-y-Coed ac yna ym Mynwent Llanrug, y Parchn John Morris, W O Roberts, E W Blainey a W R Williams oedd yn gwasanaethu. Cynrychiolwyd Capel Tan-y-Coed gan Miss Megan Humphreys. Yr organyddes oedd Miss Enid Roberts.

BEDYDD: Chwefror 15fed yng Nghapel Tan-y-Coed, a'r gweinidogy Parch John Morris yn gweinyddu, bedyddiwyd ail fab Mr a Mrs Hefin Pritchard, Cynfaes, Bryn Moelyn - Dylan Wyn. Croeso cynnes i Dylan i'r eglwys.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

J M JONES
A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU
Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)

PICWS MALI

Y Gwalch

Mi rydw i wedi cael helynt hefo fy mhenaglinia eto; yn chwyddo a rhyw liw fel rwdins arnyn nhw, ac mi es i'w weld o y noson o'r blaen. Mae o wedi newid fy ffisig i rwan. Un du ydy hwn, i'w gymeryd hefo llwy fawr. Hefo llwy de oeddwn i yn cymeryd y llall, a dydy o ddim yn sein da - newid llwya fydda'r hen bobol yn ddeud, ac mi rydw i wedi dechra ama eu bod nhw yn gwybod mwy nag oeddwn nhw yn gymeryd arnyn.

"Be' ydach chi wedi bod yn neud?" medda fo wrtha i fel 'na, ar ôl gorffan fy nghornio i.

Mi roedd gen i braidd gywilydd deud, ond mae'n rhaid i chi fod yn onast hefo'r doctor os yr ydach chi yn disgwyl iddo fo ych mendio chi.

"Sgwrio stepan drws," medda fi, "bob bora hannar awr wedi chwech hefo dŵr oer."

"Yn y tywyllwch?" medda fo. "Sut ydach chi'n gweld?"

"Dydw i ddim doctor," medda fi. "Erbyn iddi oleuo mi fydda i wedi methu darna, ac mi fydd yn rhaid i mi fynd trosti hi wedyn."

Roedd o wedi gwaredu. "Mi fydd yn rhaid i chi roi'r gora iddi hi," medda fo, "neu fendiwch chi byth." A dyma fo'n gofyn cwestiwn anifir arall. "Lle mae hi?" medda fo fel 'na.

"Mae hi yn ei gwely tan ganol bora, doctor," medda fi, "yn gneud dim ond smocio a darllan nofals."

A mae o wedi bygwth gneud papur i fynd a hi i ffwrdd, er fod y llyfdd mae nhw yn eu gyrru nhw o dan eu sang y dyrnodia yma medda nhw. Ac mi glywis ar ei ôl o yn deud wedyn na welodd o ddim cês mor sobor ers pan mae o'n ddoctor, ac mae o wedi addo trio cael hyd i ddynas i neud y stepan i mi.

"Triwch gael rhywbath fengach na be' sgin i," medda fi wrtho fo, "tra byddwch chi wrthi hi." Wn i ddim beth ddaw; dal fy ngwynt ydw i.

Ac fel yr oedd rhywbath yn mynnu bod, roeddwn i yn y Coparet ac mi es ar fy mhen i rhyw ddynas. Roedd ganddi lond trol o nwyddau fel tasa hi'n cadw cartra i blant amddifad, ac yr oedd yna rhyw ddau giwtyn o gwmpas ei thraed hi yn bowndian fel jerbuls indarybar, ac yr oeddwn nhw a'u trwyna ym mhob dim fel dacargwn.

"Fasa fawr i chi estyn y botal 'na oddar y sillff 'na i mi," medda hi wrtha i, heb introduisio ei hun na dim, fel tasa hi'n talu i mi wrth yr awr.

Mae 'na anfanteision mewn cael eich geni yn hir eich clun, a hon oedd un, ond fedrwn inna ddim cael at y botal chwaith, a doeddwn i

ddim am ymestyn gormod arnaf fy hun. Mi allasa rhywbath roi clec y tu mewn i mi. Lle baswn i wedyn?

"Rhoswch," medda fi, rhag i mi ddangos fy hun yn llai na dyn, a dyma fi'n rhoi fy nhroed ar ben ei throl hi, ac mi ges y botal, ond mi aeth fy sawdl i drwy ei phaced powdwr golchi hi, nes yr oedd hwnnw yn rhedag i lawr drwy bob dim fel tywod mewn peth berwi wyau, ac erbyn ei bod hi'n dywydd gwlyb a'r llawr dipyn yn llaith dyma fo'n dechra fffrothio ar ei union, ac yr oedd y jerbuls bach a'u dwylo yno fo mewn dau funud, wedi cael teyrnas, ac yn llyfu eu bodia am y gora.

"Mi fydd yn rhaid i chi gael cadach a mynd ar ych glinia i'w sychu," medda'r ddynas ar ei ben.

"Gwrandwch," medda fi, "am funud o'ch oes. Dydy fiw i mi gyffwrdd fy mhenaglinia yn y llawr. Mae gen i bapur doctor i beidio."

"Lle mae o?" medda hitha fel arweinydd undab llafur. Ond doedd o ddim gen i yn digwydd bod, a phan ddechreuais i dorchu fy nhrowsus i ddangos fy mhenaglinia iddi hi, dyma hi'n bygwth gyrru am y manijar.

"Gwrandwch," medda finna i'w thawelu hi. "Ar ych traws chi. Wyddoch chi ddim am rhyw ddynas fasa yn dwad i sgwrio stepan drws i mi?"

Wydda hi ddim, ond mi fynnodd wedyn gael yr holl hanas, a dyma hi'n deud yn y diwadd.

"Sgwisi fydd raid i chi gael."

"Beth ydy peth felly?" medda finna, a dyma hi'n troi ei llygada tua'r nef fel bydd y petha ifanc 'ma ar ôl taro ar rhyw hen swadi sydd tua hanner can mlynadd ar ei hôl hi, ac i ffwrdd a hi i ben draw'r lle, ac mi ddaeth yn ei hôl hefo rhyw fop a rhoi darlith i mi sut i'w drin o ar ganol y siop. Wedyn dyma hi'n mynd â fo at y cownter a'i roi o i lawr ar fy llyfr i.

Wedyn roedd hi isio talu am ei thacla ei hun.

"Fasa fawr i chi bicio i'r cefn 'na i nôl bocsi i mi," medda hi wrtha i, ac mi es, er fy mod i'n dal i ddeud fy

mod i am redag llai i'r merchad 'ma, ac mi ges afael ar focs, ond doedd gen i fawr o ffydd yno fo wrth weld faint oedd hi'n ddisgwyl iddo fo gario. Wedyn, fedrwn i neud fawr llai na jobio ei phetha hi hannar y ffordd i'r post mawr, ac yr oedd hi'n strempia i gyd, fel tasa rhywun wedi bwriadu ei pharcio hi wrth dalcan rhyw gwt ieir ac wedi methu stopio yn ddigon buan, a phan agorodd hi ei chefn hi a chymeryd y bocsi dyma waelod hwnnw yn rhoi, nes yr oedd ei negas druan hi yn un bonsh hyd y lôn, a chyn i mi gael cyfle i'w hel nhw at ei gilydd roedd 'na rhyw fan fara wedi gadael ôl ei thiars ar ei chorn biff hi. Yn y diwadd roedd hi'n fyr o bot jam a dyna lle roeddwn i hefo'r hen blant rheiny ar fy molar y lôn oer honno o dan rhyw fotos yn chwilio amdano fo.

Ar ôl cael gafael yn hwnnw dyma hi'n deud y basa hi'n picio â fi adra, er nad oeddwn i isio mwy an chael cur yn fy nhalcen, ond mynnu wnaeth hi, a doedd y ffaith fy mod i wedi sylwi ar y tolcia rheiny yn y drws yn cryfhau dim ar fy ffydd i o gyrraedd pen fy siwrna yn saff. Wedyn mi ges stryffag hefo'r hen strap hwnnw am fod y riil honno am fynnu ei blycian o o fy ngafael i.

"Dowch i mi weld," medda hi dan

fynd ar ei glinia ar y sêl. "Gollyngwch yr hen fop 'na. Mi rydach chi'n magu hwnna fel babi dol." A dyma hi a ffling iddo fo i'r tu ôl, ac mi ddaeth o'i bapur.

Yn y diwadd roeddwn i wedi cael fy rhwymo fel ffowlyn yn erbyn y drws hwnnw, a dyma hi'n cychwyn fel tasa hi yn cystadlu yn y Mili Miglia, ac yr oedd y ddau giwtyn mae'n rhaid o'r farn nad oeddwn i wedi fy nghau yn ddigon tyn. Dyma nhw yn dechra hongian ar fy llwnc i, a phan ddeudis i wrthyn nhw am lacio'u gafael dyma'r fam yn gofyn.

"Ydach chi ddim yn licio plant?"

"Ydwn tad," medda fi. "Mi rydw i'n sgut am rai bach tendar fel hyn ar draws fy mhadall wedi eu ffrio hefo nionod a saim cig moch." Welsoch chi ddim dau bach yn gollwng mor sydyn ac yn swatio yn eu conglau.

Ar ôl iddi sefyll ar ei bracia ddwywaith neu dair mi ges fynd i lawr wrth y tŷ, a fuo rioed gen i fwy o ryddhad gyrraedd unman, a dyma'r ddau jerbyl yn tynnu eu tafoda arna i drwy'r ffenestri ôl rheiny, a'r peth cynta wnes i ar ôl agor y drws oedd penderfynu newid fy niwrnod yn y Coparet.

Neu mi fydd yn rhaid i mi ofyn i'r doctor drio cael hyd i ddynas arall i fynd i'r fan honno trosta i eto.

CYHOEDDIAD PWYSIG YN HANES CWM DERI

Pan fydd ymwelwyr o Abertawe yn galw yn y Swyddfa Bost yng Nghwmderi o hyn allan, bydd Maggie Post yn gallu eu rhoi ar ben y ffordd yn llawer haws.

Yr wythnos hon, bydd Cyngor Plwyf Cwmderi yn cyhoeddi map swyddogol o'r pentre. Ebe'r Cyngorydd Gwyther: "Er pwysiced Cwmderi, dyma'r tro cyntaf i ni gael map o'r pentre. Da gweld fod y cyngor, yn ei ddoethineb, wedi gweld y ffordd yn glir i 'agor' y pentre i ymwelwyr."

Bu llunwyr mapiau'r Cyngor Sir wrthi'n ddyfal ers misoedd yn mesur y strydoedd ac yn paratoi amlinellad o'r adeiladau. Comisiynodd y cyngor un o arlunwyr enwocaf yr ardal i arlunio rhai o adeiladau amlycaf y pentre, ac fe'u gosodwyd o amgylch y map.

Dywedodd cynrychiolydd BBC Cymru sy'n dosbarthu'r poster ar ran Cyngor Plwyf Cwmderi: "Mae copiau o'r poster arbennig hwn ar gael oddi wrth y BBC. Dylid danfon £1 (sy'n cynnwys costau cludiant) at Swyddfa'r Wasg, BBC Cymru, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ. Y cyntaf i'r felin gaiff fap, fel petai."

DATHLU MAWR '88 GŴYL CYFIEITHU' BEIBL

MAE LLAI na dwy flynedd bellach yn aros cyn y bydd y dathlu crefyddol mwyaf a welwyd yng Nghymru erioed. Penodwyd dros y Sul, Medi 10-11, 1988 fel Gŵyl o ddathlu Cyfieithu'r Beibl i'r Iaith Gymraeg 400 mlynedd yn ôl.

Bydd gwasanaeth dathlu yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ar y dydd Sadwrn, a dilynnir y Gwasanaeth hwnnw yn Eglwysi a Chapeli Cymru o bob enwad drannoeth. Daeth yr Esgob William Morgan a gyfieithodd y Beibl yn ystod teyrnasiad Elisabeth I yn Esgob Llanelwy yn ddiweddarach.

Bydd y dathliad hwn yn ganolbwynt blwyddyn gyfan o ddigwyddiadau arbennig i nodi yr achlysur crefyddol, diwylliannol ac ieithyddol pwysicaf yn hanes ein cenedl. Dwy flynedd ymlaen llaw, hyd yn oed, mae'r achlysur wedi ysbrydoli gweithgarwch aruthrol ym maes cyhoeddi crefyddol. Ymhlith y llyfrau y bwriedir eu cyhoeddi mae ad-argraffiad o'r Beibl Cymraeg gwreiddiol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd hwn yn ymddangos ar yr un pryd a'r Cyfieithiad Cymraeg ar Ddydd Gŵyl Dewi 1988.

Bydd o leiaf ddwsin o lyfrau eraill yn ymddangos ac efallai mai y pwysicaf ohonynt fydd llyfr lliwgar 80-tudalen ar gyfer y genhedlaeth iau gan y Dr. Prys Morgan o Brifysgol Abertawe. Dosberthir gan y Cyngor Llyfrau.

Bwriedir hefyd gyhoeddi yn Hydref 1988 antholeg o farddoniaeth a myfyrodau ar rannau adnabyddus o'r Beibl gan y Parch Cynwil Williams, Caerdydd, a'r Parch Eirian Davies, Caerdydd.

Gwelir hefyd lawlyfr dwyieithog safonol ar ein hetifeddiaeth Feiblaidd gan yr Athro R. Geraint Gruffydd o Wasg Prifysgol Cymru.

Anfonwyd gwahoddiad i bob Prifysgol a choleg yng Nghymru i ddathlu'r achlysur, ac eisoes mae nifer ohonynt wedi derbyn. Mae'r enwadau eu hunain yn cynnal darlithoedd arbennig, yn ogystal a chymdeithas fel y Cymrodorion, Cymdeithas Dafydd ap Gwilym Rhydychen a Mabinogi Caergrawnt.

Comisiynwyd gweithiau cerddorol yn yr idiom fodern a thraddodiadol gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a disgwylir i'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gynnwys cystadlaethau ar thema Cyfieithu'r Beibl yn eu rhaglenni.

Bydd yr Ysgolion Sul hefyd yn trefnu gweithgareddau arbennig a bydd eu meysydd llafur yn adlewyrchu'r dathlu.

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â: Mr J. Cyril Hughes, Sycharth, 54 Maes Hendre, Waunfawr, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: 0970 617320.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Dyddiadur y Mis

DYDDIADUR MAWRTH

2 Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched

3 Mawrth: BETHEL: Clwb Bro Bethel yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng nghwmni plant yr Ysgol Gynradd am 1.30

LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Mhlas Tan Dinas.

PENISARWAUN: Yr Urdd - sleidiau gan Mr Leslie Larsen.

4 Mercher: LLANBERIS A NANT PERIS: Cymdeithas y Chwirydd.

5 Iau: PENISARWAUN: 'Sêl Fawrth' yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. Yr elw er budd cronfa yr Eisteddfod Bentref.

6 Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed.

DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

YR ARDAL: Rhanbarth Arfon o Ferched y Wawr yn cynnal Ffug Eisteddfod yn Neuadd Ysgol Brynrefail.

9 Llun: WAUNFAWR: Swper Gŵyl Ddewi y Gymdeithas Lenyddol yn y Fictoria, Llanberis.

BETHEL: Clwb y Rhos.

11 Mercher: BETHEL: Swper Gŵyl Ddewi Merched y Wawr yn yr Ysgol am 7.30.

YR ARDAL: Cystadleuaeth 'Cwis Gwahanol' dan nawdd Cangen Llanrug a'r Cylch o Blaid Cymru yn yr Ysgol Gynradd am 7.30

PENISARWAUN: Yr Urdd - Fideo'r Urdd.

13 Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

17 Mawrth: PENISARWAUN: Yr Urdd - 'Chwilen'

19 Iau: YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

20 Gwener: LLANBERIS: Te yr

Henoed.

Bingo a Bwyd yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd Cymdeithas Brydeinig y Galon.

DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

21 Sadwrn: BETHEL: Cinio blynyddol Clwb y Rhos yng Nghastell Cidwm.

25 Mercher: PENISARWAUN: Yr Urdd - ymweliad â'r Ganolfan Hamdden.

25 Iau: LLANBERIS: Sefydliad y Merched.

27 Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00

Dyddiadau i'w Cofio

Ebrill 10: LLANBERIS: 'Bingo a Bwyd' yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30. Yr elw er budd yr RSPCC.

YN EISIAU

Rhywun i fod yn gyfrifol am
DDYDDIADUR Y MIS
Cysyllter â'r golygyddion

YN EISIAU . . . TREFNYDD HYSBYSEBION ECO'R WYDDFA

Cyfle diddorol i
ddod i adnabod
busnesau'r fro.

Cysyllter â'r
Golygydd -
Caernarfon 3515
neu'r Trefnydd
presennol -
Caernarfon 5605.

COLEG PRIFYSGOL CYMRU ABERYSWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1987. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cysiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1: Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETH THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH.

RHAN 2: Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG. neu Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol: ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH.

Cynigir cynorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir **Rhan 1** dros 1-3 blynedd yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd **Rhan 2** yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth **Hywel W. Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.** Gwahoddir ceisiadau erbyn 16 Ebrill, 1987.

BORE YN BELLFIELD

Ddydd Llun, Chwefror 9fed, treuliodd Nia Llwyd a Gwennan Jones o'r Waunfawr, fore yn Bellfield, cae ymarfer tîm pêl-droed Everton. Mae'r ddwy yn gofnogwyr brwd o'r tîm, a chawsant wahoddiad i fynd i Bellfield gan Howard Kendall, rheolwr y clwb. Dyma hanes yr ymweliad hwnnw:

"Ar ôl deffro'n gynnar, roeddem yn barod i gychwyn i Lerpwl i weld tîm Everton yn ymarfer. Roedd yn daith ddiflas iawn i Lerpwl, ond erbyn tua hanner awr wedi naw roeddem wedi cyrraedd twnel Mersey. Wedi cyrraedd yr ochr draw nid oeddem yn rhy sicr ble i fynd. Roedd yn rhaid i ni yn gyntaf ddod o hyd i Ysbyty Walton lle roeddem yn cyfarfod â rhywun oedd am ein harwain i Bellfield.

Wedi cyrraedd Stryd Stanforth, credai ein *chauffer* (tad Gwennan) ein bod ar goll, ond roedd giat werdd o'n blaen gyda'r geiriau "Bellfield Training Ground" arni. I mewn â ni a pharcio'r car.

Nid ni oedd yr unig blant a oedd yno. Roedd tua wyth deg o rai eraill yn bresennol, i gyd wedi cael gwahoddiad i weld Everton yn ymarfer. Ar ôl disgwyl am tua deng munud cawsom fynd i mewn i'r 'gym' oherwydd ei bod yn bwrw glaw.

Daeth tua pump o chwaraewyr i mewn a chawsom sioc fawr o weld mai chwaraewyr yr ail dîm oeddynt. Roedd chwaraewyr y tîm cyntaf i gyd wedi mynd drosodd i Ffrainc i chwarae! Nid oedd yn ddiddorol iawn gwylio chwaraewyr yr ail dîm yn rhedeg yn ôl a blaen yn cicio pêl yn erbyn waliau'r 'gym' - a ninnau wedi teithio can milltir.

Ar ôl yr ymarfer, cafodd y chwaraewyr gêm saith bob ochr. Yr unig rai yr oeddem yn eu hadnabod oedd Derek Mountfield, Bobby Mimms a Kevin Langley. Ymhen ychydig ar ôl dechrau'r gêm daeth Paul Power i mewn a rhuthrodd pawb ato i gael ei lofnod a chael tynnu eu llun gydag ef. Wedi i'r gêm orffen, cawsom lofnod Derek Mountfield a dau o chwaraewyr yr ail dîm.

Buom yno am dros ddwy awr i

gyd, ond siomedig oedd y bore ar y cyfan. Roeddem ein dwy wedi edrych ymlaen yn fawr iawn am fynd yno a chael cyfarfod ag aelodau o'r tîm cyntaf, ond yr unig beth a gawsom oedd siom.

Rydym wedi ysgrifennu llythyr i Howard Kendall, y rheolwr, i ddiolch am y gwahoddiad ac am yr ymweliad, ond ar yr un pryd, i ddweud ein bod yn siomedig na chawsom wedi y tîm cyntaf. Pwy a wŷr, efallai y cawn fynd yno eto rhyw ddiwrnod.



gyda Paul Power



a Derek Mountfield

CODI PWYSAU

Bu nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth codi pwysau pŵer yn Abertawe ar y 14eg o Chwefror. Mae'r hogiau i gyd yn aelodau o glwb Dinorwig, ac yn derbyn hyfforddiant gan Mr Len Jones.

Daeth medalau aur i Kevin Cyster, Kevin Walters a Darren Turner, arian i Gwynant Maxwell, David Lambert ac Eifion Griffiths, a medal bres i Rodney Collins.

Nid oedd Rodney yn bresennol pan dynnwyd y llun isod.



Llongyfarchiadau hefyd i Arwel Jones o Fethel. Ganddo ef y cafwyd y perfformiad gorau ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru yn Amlwch yn ystod y mis yn y dosbarth i fechgyn dan 16 oed.

CHWARAEON

DIRGELWCH Y TYWYRCH

Ni sylweddolais tra'n ffurfio'r pwt ar Gystadleuaeth Pêl-droed Llanrug yn rhifyn Ionawr o'r Eco, mai ail-bobi yr oeddwn hen destun y bu cryn ddadlau yn ei gylch drwy gyfrwng y dudalen hon dair blynedd yn ôl.

Fe gofiwch i glip o dudalenau chwaraeon y Caernarfon & Denbigh Herald ddod i law, hwn yn cyfeirio at y Gystadleuaeth ac yn enwi rhai o'r timau. Yn anffodus nid oedd yn crybwyll y dyddiad nag ychwaith yn enwi'r enillwyr.

Ar y funud olaf, â'r Eco'n barod i'w roi yn ei wely, deallais fod y Gymdeithas Bêl-droed wedi rhoi terfyn ar y cystadlu, a chlywed hefyd rhyw stori ryfedd am dalu i gael cystadlu â thywarchen!

"Dydi'ch ffeithia chi ddim yn iawn", oedd ymateb Mr Tom Jones, Rhos Rug, Llanrug. "Mae'r stori'n llawn yn rhifyn Mai 1984 o'r Eco. Dewch draw os am fwy a fanylion." Ac i ffwrdd â mi.

Fe gynhaliwyd y Gystadleuaeth ar ddiwedd tymor 1934-35 ar y Cae Plwyf, sef y cae 'swings' bellach. Rhodd ydoedd i'r Plwyf gan Duncan Elliot Alves, Bryn Bras, ac yn ôl pob hanes un o'r caeau pêl-droed lleiaf a welwyd erioed. 'Roedd yn rhaid cwtogi llatheni ar faint priodol y blwch cosbi er mwyn ei ffitio rhwng llinellau'r ystlys! 'Roedd angen ei atgyweirio hefyd, yn enwedig o flaen un gôl ple 'roedd cerrig mân ar yr wyneb.

I'r perwyl hwn, felly, y penderfynwyd cynnal y 'Llanrug Knockout Competition', gan godi 12 swllt ar bob tîm oedd am gystadlu. Cytunodd Mr D M Pritchard i brynu cwpan hardd i'w chyflwyno i'r enillwyr, a dyna ddechrau ar y rownd gyntaf.

Nid oes sicrwydd bellach pa sawl tîm a ymunodd yn wreiddiol â'r gystadleuaeth; yn sicr ni roddwyd unrhyw waharddiad ar y nifer. Ys dywed Mr Jones. "Chwaraeais i i dîm y Bonc Isa' nos Lun, a cholli 3-1. Wedyn ail dalu a chofrestru'r un tîm o dan enw arall a chwarae nos Iau. Mi chwaraeais i hefo naw tîm gwahanol." Crêd fod o leiaf 54 tîm wedi cystadlu yn y rownd gyntaf, ond yn sicr 'doedd dim 54 set wahanol o 11 dyn!

Aeth y gystadleuaeth ymlaen dros gyfnod o 11 wythnos, er fod gêm wedi ei threfnu bron bob gyda'r nos! Yn naturiol 'roedd timau fel Rhos Isa, Rhostryfan, Crosville a Bethel yn ddig o weld yr un wynebau yn cystadlu wythnos ar ôl wythnos, a neb yn sôn am eu gemau ail rownd hwy. Bu cwyno felly i'r Gymdeithas a phenhwyd dyddiad y ffeinal. Yn wir, byth er hynny, mae'n rhaid i glwb sy'n aelod o'r Gymdeithas gael caniatâd i gynnal cystadleuaeth o'r fath o'r tu allan i'r tymor.

Yn un o'r gemau cyn-derfynol, trechwyd Rhos Isa gan Llanrug o 2

gôl i un, ac yn y llall bu DM XI yn drech na'r Bulldogs. 'Local Darby' go iawn felly oedd y final, gan mai tîm llawn Llanberis oedd DM XI. Roedd y ddau yn aelodau o Gynghrair Caernarfon a'r Cylch, a Llanberis yn y cyfnod hwnnw yn ysgubo popeth o'u blaenau. Gall Mr Jones enwi'r tîm yn gyfan hyd heddiw, sef Gwil Bwtsiar, Wil Penny, Dafydd Tom, Wil Padarn Road, Wili Davies, John Glyn Jones, Ianto, Twm Twm, Dafydd Jên Ann, Dafydd Taff, Dafydd Annie Dora a Rol Bach - chwech ohonynt o Gaernarfon.

'Roedd cannoedd yn gwyllo'r gêm ar nos Wener braf, a Llanberis fu'n fuddugol o 3 gôl i 1. Cyflwynwyd y cwpan i John Glyn Jones gan y Parch Morris Jones, Rheithor Llanrug a Chadeirydd y Pwyllgor Cae Plwyf.

Cyflwynwyd cwpan fach hefyd i bob aelod o'r ddau dîm yn y ffeinal. Y mae'r un a dderbyniwyd gan Mr Jones ganddo hyd heddiw, ond 'sgwn i ble 'r aeth Cwpan DM?

A beth am y tywyrch hynny? 'Roedd yn amlwg y byddai'n rhaid codi'r cerrig mân o flaen un o'r goliau, a'r bwriad oedd i osod y tywyrch i gymeryd eu lle.

Rhoddwyd y gwaith i Mr Jones, a bu'n ceibion galed i baratoi'r wyneb. Ni edrychai ymlaen o gwbl at y dasg o godi a chario'r holl dywyrch y byddai eu hangen, ac mewn sgwrs â Joni Edwards Saer, fe darawyd ar y syniad o gynnal cystadleuaeth. Fe gynigwyd punt o wobwr i'r sawl a allai dorri'r dywarchen orau, a honno'n union lathen sgwâr. Yn naturiol 'roedd yn rhaid cyflwyno'r tywyrch ar y Cae Plwyf ac noson arbennig i gael eu beirniadu. Aeth y wobwr i Jac Penlan, a derbyniodd Mr Jones ddigon o dywyrch i orffen ei waith yn gyfforddus. 'Roedd Trysorydd y Pwyllgor yn anfodlon talu am yr holl waith iddo, gan na chostiodd ond punt, ond talu fu rhaid, gan fod y Pwyllgor yn cytuno fod y dasg wedi ei chwblhau, beth bynnag fo'r modd.

PYSGOTA

Dyma ni ar drothwy tymor arall, yr afonydd yn agor ar y 3ydd, a'r llynnoedd ar yr 20fed o Fawrth. Cofiwch fod nifer o frithyll, yn pwyso hyd at 5 pwys, wedi eu tagio a'u gollwng yn Llyn Padarn. Bydd gwobr o docyn aelodaeth y Gymdeithas, sy'n werth £30, i bwy bynnag fydd yn ddigon llwus i ddal un.

Bydd cystadleuaeth agored hefyd ar y Llyn, yn dechrau am 10 o'r gloch ar Fawrth 22ain, ac un arall (plu yn unig) ar Lyn Dywarchen ar y 12fed o Ebrill. Bwriedir stocio'r llyn yma cyn y gystadleuaeth ac ni chaniateir pysgota arno am gyfnod cyn hynny. Tair punt fydd y tâl am gystadlu, a chaniateir codi hyd at 8 brithyll yr enfys rhwng 4 ac 8 o'r

gloch.

Mae'r Swyddfa Gymreig wedi cefnogi cais y Bwrdd Dŵr i wahodd rhwydo yng ngheg y Seiont, ac o ganlyniad disgwylir y bydd llawer mwy o eogiaid a sewin i'w gweld i fyny'r afon. Llwyddwyd hefyd i sicrhau prydles am 5 mlynedd ychwanegol ar y Seiont gan Stad Glan Gwna.

PÊL-DROED

Gyda chwe gêm yn unig yn weddill yng Nghynghrair Gwynedd, erys gobeithion Llanberis am y bencampwriaeth yn uchel. Un pwynt yn unig a gollwyd hyd yma, a dylai saith arall o'r gemau sy'n weddill sicrhau'r teitl iddynt.

Daeth buddugoliaeth arall y Sadwrn diwethaf, curo'r Normal o 4 gôl i 1, Peter Roberts (2), Stephen Williams a Gareth Bryn Williams yn sgorio.

Bu Llanrug yn llwyddiannus hefyd, yn erbyn y Brifysgol, Tony Bohanna (2), Robert Morris, Dafydd Roberts a Hefin Pritchard yn ei gwneud yn 5-0.

Colli'n drwm eto fu hanes Bethel, o 8 gôl i 3 ym Mhenrhyndeudraeth, y tîm sy'n ail yng Nghynghrair Sain Caernarfon a'r Cylch.

GOBEITHIO DRINGO

Aelodau o garfan pêl-droed 5-bob-ochr Ysgol Gynradd Llanrug - pencampwyr Cylch Arfon yng Nghystadleuaeth "Allied Steel".

Lwc dda iddynt yn y rownd nesaf pryd y byddant yn chwarae ym Mangor yn erbyn timau dan 12 gorau Gwynedd.



Aelodau'r garfan yw Simon Murphy, Aled Roberts, Gwion ap Llwyd, Steven Jones, Wayne Jones ac Iwan Parry. 'Roedd Neil Hughes yn absennol pan dynwyd y llun.

RHEDEG TRAWS GWLAD

Dewiswyd pedwar o ddisgyblion Ysgol Brynrefail, sef Paul Grant, Linda Prydderch, Gillian Glass a Julie Bayliss i gynrychioli ysgolion Arfon ym Mhencampwriaeth Gwynedd ar y 12fed o'r mis, ar gae y Brifysgol ym Mangor.

Daeth Paul yn gyntaf yn y ras i fechgyn o dan 17 oed a Linda yn ail yn ei ras hi, ac o ganlyniad, bydd y ddau yn cynrychioli Gwynedd ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cymru. Bydd Gillian hefyd yn eilydd i'r tîm, gan iddi ddod yn 9fed yn ei ras hi.

'Roedd buddugoliaeth Paul yn un wych dros ben, gan iddo guro Bedwyr Hughes o Drawsffynydd am y tro cyntaf erioed. Mae'r ddau yn aelodau blaenllaw o Eryri Harriers, a Bedwyr wedi cynrychioli Ysgolion Cymru y llynedd. Mae siawns dda iawn felly y bydd Paul yn ymuno ag ef, ac yn rhedeg dros Gymru yn ddiweddarach yn y tymor.

PÊL DROED YSGOL BRYNREFAIL

Mae Dafydd Llywelyn Jones (Bethel) yn aelod o'r tîm dan 15 oed Ysgolion Arfon sydd bellach wedi cyrraedd rownd cyn-derfynol o gystadleuaeth i Gymru gyfan. Eu gwrthwynebwyr nesaf fydd bechgyn Abertawe ar y Vetch - hefo'r ail gymal i gael ei chwarae yn Arfon yn fuan wedyn.

Yn y rownd go gyn-derfynol fe gafodd bechgyn Arfon ddwy fuddugoliaeth dda yn erbyn Swydd Henffordd, sef 3-2 gartref a 3-1 yn Kingston yn yr ail gymal.

Mae bechgyn hyn Ysgolion Arfon allan o'u cystadleuaeth hwy. Chwaraewyd gêm gyfartal yn erbyn Gorllewin Clwyd gartref ond colli wnaeth y bechgyn yn yr ail gêm i ffwrdd o 2-0 ar ôl amser ychwanegol. Fe chwaraeodd Dafydd Jones (Penisrwaun) ac Andrew Griffith (Llanberis) yn y tîm ac roedd Jason Roberts (Llanberis) yn eilydd.



Linda a Paul

YMUNWCH Â CIC! (Clwb i'r Campau)

CLWB SY'N BODOLI I HYBU'R
CAMPAU TRWY GYFRWNG Y
GYMRAEG.

Anfonwch y ffurflen isod,
cyn Mawrth 25ain, 1987 at:-
Thomas Davies,
'Penychen', Highfields, Llandât, Caerdydd.

Pob ffurflen yn mynd i'r het i'w tynnu am
y gwobrau anhygoel hyn:-



2 docyn eistedd i Wimbledon '87.



2 docyn eistedd ar gyfer gem
Cymru - Tsiecostofacia yn Wrecsam.



2 docyn eistedd ar gyfer gem
Cymru - Iwerddon ar y Maes Cenedlaethol.

Impryd i'r Cymdeithas ym 1987.

Ffôn

01-234